

# Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

## Adroddiad Cyfnod 1

Mawrth 2024



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:

**[www.senedd.cymru/SeneddTai](http://www.senedd.cymru/SeneddTai)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

**Senedd Cymru**

**Bae Caerdydd**

**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **[SeneddTai@senedd.cymru](mailto:SeneddTai@senedd.cymru)**

Twitter: **[@SeneddLlywLTai](https://twitter.com/SeneddLlywLTai)**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

## Adroddiad Cyfnod 1

Mawrth 2024



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:  
[www.senedd.cymru/SeneddTai](http://www.senedd.cymru/SeneddTai)

---

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:  
John Griffiths AS**  
Llafur Cymru



**Jayne Bryant AS**  
Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**  
Plaid Cymru



**Joel James AS**  
Ceidwadwyr Cymreig



**Sam Rowlands AS**  
Ceidwadwyr Cymreig



**Carolyn Thomas AS**  
Llafur Cymru

---

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Mabon ap Gwynfor AS**  
Plaid Cymru

## Cynnwys

<b>1.</b>	<b>Argymhellion.....</b>	<b>7</b>
<b>1.</b>	<b>Cyflwyniad.....</b>	<b>10</b>
	Dull gweithredu'r Pwyllgor.....	10
	Cylch gorchwyl .....	10
	Casglu tystiolaeth.....	11
	Trafodaethau Pwyllgorau eraill ar y Bil.....	11
<b>2.</b>	<b>Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth.....</b>	<b>13</b>
	Cefndir y Bil.....	13
	Trosolwg o'r Bil.....	14
	Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo ei chael.....	15
	Safbwyntiau rhanddeiliaid ar egwyddorion cyffredinol y Bil.....	15
	Is-ddeddfwriaeth .....	17
	Adolygiad ôl-weithredu .....	20
	Ein barn ni.....	21
<b>3.</b>	<b>Rhan 1 - Ardrethu annomestig .....</b>	<b>25</b>
	Rhestrau ardrethu.....	25
	Rhestrau ardrethu lleol a chanolog .....	25
	Pŵer i ddiwygio blwyddyn ailbriso .....	31
	Ein barn ni.....	32
	Rhyddhadau .....	33
	Pwerau i roi ac amrywio rhyddhadau, a'u tynnu'n ôl.....	33
	Hereditamentau heb eu meddiannu: rhyddhad ardrethi elusenol .....	36
	Ein barn ni.....	37
	Hysbysiadau cwblhau .....	39
	Hysbysiadau cwblhau ar gyfer adeiladau newydd .....	39

---

Ein barn ni.....	40
Rhyddhad yn ôl disgresiwn.....	40
Rhyddhad yn ôl disgresiwn: terfyn amser .....	40
Ein barn ni.....	42
Esemptiadau .....	42
Pwerau i roi ac amrywio esemptiadau, a'u tynnu'n ôl.....	42
Ein barn ni.....	44
Lluosyddion ardrethu annomestig .....	45
Cyfrifo lluosyddion ardrethu annomestig.....	45
Ein barn ni.....	49
Darparu gwybodaeth.....	50
Gwybodaeth i'w darparu i'r swyddog prisio.....	50
Ein barn ni.....	57
Atal osgoi trethi .....	58
Trefniadau artiffisial i osgoi ardrethi annomestig .....	58
Ein barn ni.....	61
<b>4. Rhan 2 - Y dreth gyngor.....</b>	<b>63</b>
Newidiadau i fandiau prisio.....	63
Cyfrifo treth ar gyfer gwahanol fandiau prisio .....	63
Ein barn ni.....	65
Newidiadau i'r dreth gyngor sy'n daladwy.....	65
Disgowntiau .....	65
Symiau gostyngedig.....	68
Ein barn ni.....	70
Cyfathrebiadau electronig .....	71
Cyhoeddi hysbysiadau .....	71
Ein barn ni.....	75

---

Prisio anheddau .....76

Y weithdrefn ar gyfer llunio rhestrau prisio .....76

Ein barn ni.....79

**Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar .....80**

**Atodiad B: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig ..... 82**

Gwybodaeth Ychwanegol ..... 84

---





## 1. Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylai'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)..... Tudalen 21

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Bil i gynnwys gofyniad i gynnal adolygiad statudol o'r defnydd o bwerau o dan adrannau 5, 9, 10, 13 a 18 o'r Bil. Dylai'r adolygiad gael ei gynnal cyn diwedd y Seithfed Senedd a dylai gynnwys:

- asesiad gan Weinidogion Cymru o fecanweithiau deddfwriaethol amgen ar gyfer gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth Cymru yng nghydestun rhyddhadau, esemptiadau, lluosyddion a darpariaethau gwrthosgoi mewn perthynas ag ardrethu annomestig, a disgowntiau'r dreth gyngor; a
- gofyniad i ymgynghori â'r Senedd. ....Tudalen 24

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion am y trefniadau sydd ar waith i fonitro capasiti Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru yn dilyn gweithredu cylchoedd ailbrisio byrrach. ....Tudalen 32

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am unrhyw waith sy'n cael ei wneud ac unrhyw gynigion sy'n cael eu hystyried i newid y dyddiad prisio rhagflaenol yn y dyfodol.....Tudalen 33

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 14 o'r Bil i ddarparu ar gyfer isafswm cyfnod o 60 diwrnod, ac eithrio cyfnodau o ddiddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar unrhyw reoliadau drafft a gynigir o dan y pwerau yn adran 5, pan fo'r pwerau i'w defnyddio i roi rhyddhadau neu eu tynnu'n ôl.....Tudalen 38

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol yn benodol i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad cyn gwneud rheoliadau o dan y pwerau yn adran 5, pan fo'r pwerau i'w defnyddio i roi rhyddhadau neu eu tynnu'n ôl. ....Tudalen 38

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu canllawiau ar y gofynion diwygiedig ar gyfer cymhwystra i gael rhyddhad ardrethi elusennol. Dylai'r gwaith gael ei wneud cyn i'r darpariaethau yn adran 6 ddod i rym.....Tudalen 39

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 14 o'r Bil i ddarparu ar gyfer isafswm cyfnod o 60 diwrnod, ac eithrio cyfnodau o ddiddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar reoliadau drafft a gynigir o dan y pwerau yn adran 9, pan fo'r pwerau i'w defnyddio'n benodol i roi esemptiadau neu eu tynnu'n ôl.....Tudalen 45

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil fel bod gofyniad penodol ar Weinidogion Cymru i gynnal ymgynghoriad cyn gwneud rheoliadau o dan adran 9, pan fo'r pwerau i'w defnyddio i roi esemptiadau neu eu tynnu'n ôl. ....Tudalen 45

**Argymhelliad 10.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 14 o'r Bil i ddarparu ar gyfer isafswm cyfnod o 60 diwrnod, ac eithrio cyfnodau o ddiddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar reoliadau drafft a gynigir o dan y pwerau yn adran 10, pan fo'r pwerau i'w defnyddio i ddarparu ar gyfer lluosyddion gwahaniaethol. ....Tudalen 49

**Argymhelliad 11.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gynnwys gofyniad penodol ar Weinidogion Cymru i gynnal ymgynghoriad cyn gwneud rheoliadau yn adran 10, pan fo'r pwerau i'w defnyddio i ddarparu ar gyfer lluosyddion gwahaniaethol.....Tudalen 50

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud rhagor o waith i asesu addasrwydd yr amserlen arfaethedig ar gyfer darparu gwybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 12, gan gynnwys, lle bo'n briodol, adolygu'r profiad yn Lloegr. ....Tudalen 58

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i'r Bil i wneud cychwyn adran 12 yn destun cymeradwyaeth gan y Senedd.....Tudalen 58

**Argymhelliad 14.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 14 o'r Bil i ddarparu ar gyfer isafswm cyfnod o 60 diwrnod, ac eithrio cyfnodau o ddiddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar reoliadau drafft a gynigir o dan y pwerau yn adran 13, wrth bennu trefniadau osgoi artiffisial. ....Tudalen 62

**Argymhelliad 15.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gynnwys gofyniad penodol i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad cyn gwneud rheoliadau o dan adran 18, ac eithrio wrth newid cyfraddau disgownt..... Tudalen 70

**Argymhelliad 16.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu ar gyfer isafswm cyfnod o 60 diwrnod, ac eithrio cyfnodau o ddiddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar reoliadau drafft a gynigir

o dan y pwerau yn adran 18, ac eithrio wrth newid cyfraddau disgownt.  
..... Tudalen 71

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu monitro gweithrediad y darpariaethau yn adran 20 ar draws awdurdodau lleol, a gwerthuso eu heffaith ar hygyrchedd a thryloywder. ....Tudalen 76

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am ei chynigion ar gyfer unrhyw drefniadau trosiannol a all fod yn ofynnol i gefnogi aelwydydd ac awdurdodau lleol o ganlyniad i ailbrisió'r dreth gyngor.  
.....Tudalen 79

## 1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) ("y Bil") ar 20 Tachwedd 2023 a chafodd ei anfon i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i graffu ar ei egwyddorion cyffredinol. Mae pwyllgorau eraill y Senedd hefyd wedi gwneud gwaith craffu ar agweddau ariannol a chyfansoddiadol ar y Bil.

**1.** Ar 20 Tachwedd 2023, cyflwynodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ("y Gweinidog"), y Bil a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig.<sup>12</sup> Cyhoeddwyd Datganiad o Fwriad Polisi ar gyfer y Bil hefyd.<sup>3</sup>

**2.** Yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, cyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Senedd y Bil i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ("y Pwyllgor") er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1). Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad erbyn 15 Mawrth 2024.<sup>4</sup>

## Dull gweithredu'r Pwyllgor

### Cylch gorchwyl

---

**3.** Ar 22 Tachwedd 2023, cytunodd y Pwyllgor y byddai'n defnyddio'r fframwaith a ganlyn wrth graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil, i ystyried:

- egwyddorion cyffredinol Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) ac a oes angen deddfwriaeth er mwyn cyflawni'r amcanion polisi a nodir yn y Bil;
- unrhyw rwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil, ac a yw'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd ag ef yn rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt;
- a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;

---

<sup>1</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

<sup>2</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol

<sup>3</sup> Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, Tachwedd 2023

<sup>4</sup> Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Chwefror 2024

---

- asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau ariannol ac effeithiau eraill y Bil fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol;
- priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir yn Rhan 1: Pennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol);
- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys a yw'r Bil yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- y cydbwysedd rhwng yr wybodaeth sydd ar wyneb y Bil a'r wybodaeth i'w chynnwys mewn is-ddeddfwriaeth;
- unrhyw fater sy'n ymwneud ag ansawdd y ddeddfwriaeth; ac
- unrhyw fater arall sy'n ymwneud â goblygiadau cyfansoddiadol neu oblygiadau eraill y Bil.

## Casglu tystiolaeth

---

**4.** Rhwng 24 Tachwedd 2023 a 15 Ionawr 2024, cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus i lywio ei waith, yn seiliedig ar y cylch gorchwyl y cytunwyd arno. Cafwyd 56 o ymatebion i'r ymgynghoriad, a gafodd eu cyhoeddi wedyn; mae 39 o'r rheini'n ymwneud yn benodol ag adran 20 o'r Bil.<sup>5</sup> Cafodd y Pwyllgor friff technegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar 30 Tachwedd 2023.

**5.** Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth lafar gyda'r Gweinidog ar 13 Rhagfyr 2023 a 7 Chwefror 2024. Gwnaeth y Pwyllgor hefyd gynnal cyfres o bum sesiwn tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid allanol. Gellir gweld rhestr lawn o sesiynau tystiolaeth lafar yn Atodiad A, ac mae rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol i'w gweld yn Atodiad B.

**6.** Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ddarparu tystiolaeth i lywio ein gwaith craffu.

## Trafodaethau Pwyllgorau eraill ar y Bil

**7.** Ar 7 Chwefror 2024, clywodd Pwyllgor Cyllid y Senedd dystiolaeth gan y Gweinidog am oblygiadau ariannol y Bil.<sup>6</sup> Ar 11 Rhagfyr 2023, clywodd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd dystiolaeth gan y Gweinidog

---

<sup>5</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), [ymgynghoriad](#)

<sup>6</sup> [Y Pwyllgor Cyllid, 7 Chwefror 2024](#)

am faterion o fewn ei gylch gwaith, gan gynnwys pa mor briodol yw'r darpariaethau yn y Bil sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth, ar 11 Rhagfyr 2023.<sup>7</sup> Mae'r ddau bwyllgor wedi adrodd ar eu casgliadau.

---

<sup>7</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 11 Rhagfyr 2023

---

## 2. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

### Cefndir y Bil

**8.** Gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad clir i ddiwygio trefniadau presennol y dreth gyngor. Yn ei Rhaglen Lywodraethu, mae Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd yn “ceisio diwygio'r dreth gyngor i sicrhau system decach a mwy graddoledig”.<sup>8</sup> Mae hwn yn ymrwymiad a rennir o fewn y Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru, sy'n datgan mai ei uchelgais yw:

*“Diwygio un o'r mathau lleiaf teg o drethu – un sy'n effeithio'n anghymesur ar ardaloedd tlotach Cymru – i'w gwneud yn decach.”<sup>9</sup>*

**9.** Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar ei dull o ddiwygio llywodraeth leol yng Nghymru, a oedd yn cynnwys cyfeiriad at amlinelliad o'r camau cychwynnol ar gyfer diwygio ariannol. Wedi hynny, cychwynnodd y Llywodraeth raglen ymchwil, a oedd yn cynnwys ystyried cyllid llywodraeth leol, gan arwain at gyhoeddi *Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Crynodeb o'r Canfyddiadau* ym mis Chwefror 2021.<sup>10</sup> Ym mis Gorffennaf 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru 'Ymgynghoriad Cam 1' ar ddiwygiadau i'r dreth gyngor yng Nghymru.<sup>11</sup> Ym mis Tachwedd 2023, lansiyd ymgynghoriad 'Cam 2', gan adeiladu ar gynigion 'Cam 1'.<sup>12</sup> Daeth yr ymgynghoriad ar Gam 2 i ben ar 6 Chwefror 2024.

**10.** Mewn datganiad llafar ar 14 Tachwedd 2023, dywedodd y Gweinidog wrth y Senedd y byddai rhai o'r newidiadau y gallai Llywodraeth Cymru geisio eu gwneud yn y dyfodol, megis ymestyn esemptiadau rhag atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor, yn defnyddio'r "pwerau yr ydym yn eu ceisio drwy Fil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)”.<sup>13</sup>

**11.** Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad Cam 1 ar ddiwygio'r dreth gyngor, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru hefyd ar ddiwygio ardrethi annomestig yng

<sup>8</sup> Llywodraeth Cymru, [Rhaglen Lywodraethu - Diweddariad](#)

<sup>9</sup> Llywodraeth Cymru, [Y Cytundeb Cydweithio 2021](#)

<sup>10</sup> Llywodraeth Cymru, [Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Crynodeb o'r Canfyddiadau](#), Chwefror 2021

<sup>11</sup> Llywodraeth Cymru, [Treth Gyngor Decach](#)

<sup>12</sup> Llywodraeth Cymru, [Treth Gyngor Decach: cam 2](#)

<sup>13</sup> Y Cyfarfod Llawn, [14 Tachwedd 2023](#), Cofnod y Trafodion, paragraff 144

Nghymru fel rhan o'r rhaglen ehangach o ddiwygio trethi lleol. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw ym mis Chwefror 2023.<sup>14</sup>

**12.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bu "cydnabyddiaeth ers amser maith fod angen bwrw ymlaen â gwaith i ddiwygio trethi lleol yng Nghymru". Mae'n dweud:

*"mae Llywodraeth Cymru wedi meithrin dealltwriaeth glir o'r ffordd y mae deddfwriaeth sylfaenol bresennol sy'n cwmpasu ardrethi annomestig a'r dreth gyngor, ac sy'n dyddio o'r cyfnod cyn datganoli, yn cyfyngu ar ein gallu i wneud addasiadau amserol er mwyn ei gwneud yn bosibl i'r cymorth cywir gael ei ddarparu i aelwydydd, busnesau a thalwyr ardrethi eraill yng nghyd-destun ein blaenoriaethau."*<sup>15</sup>

## Trosolwg o'r Bil

**13.** Mae'r Bil yn cynnwys tair rhan, 25 adran ac un Atodlen.

**14.** Mae Rhan 1 o'r Bil yn ceisio diwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988"). Sefydlodd y Ddeddf hon y system ardrethi annomestig yng Nghymru. Mae'n rhagflaenu datganoli ond mae'n cynnwys nifer o bwerau y gall Gweinidogion Cymru eu harfer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn perthynas ag ardrethi annomestig.

**15.** Mae Rhan 2 o'r Bil yn ceisio diwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992"). Y Ddeddf hon a sefydlodd system y dreth gyngor. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y fframwaith a gyflwynwyd gan y ddeddfwriaeth wedi cael ei "ychwanegu ato'n raddol" dros y 3 degawd diwethaf ac "wedi mynd yn gymhleth" ac yn "anodd i aelwydydd ei ddeall ac i ymarferwyr ei weinyddu."<sup>16</sup>

**16.** Mae Rhan 3 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau cyffredinol.

**17.** Mae'r Atodlen i'r Bil yn gwneud darpariaeth ganlyniadol i ddeddfwriaeth o ganlyniad i'r diwygiadau i Ddeddf 1988 a wnaed gan Ran 1.

---

<sup>14</sup> Llywodraeth Cymru, [Diwygio Ardrethi Annomestig yng Nghymru - Crynodeb o'r Ymatebion](#), Chwefror 2023

<sup>15</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.10

<sup>16</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.83

---



## Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo ei chael

- 18.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai darpariaethau'r Bil yn gwneud "cyfraniad sylweddol at ddiwygio ardrethi annomestig a'r dreth gyngor yng Nghymru, gan fynd i'r afael â llawer o gyfyngiadau'r trefniadau presennol" ac yn "cynyddu gallu Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol i gyflwyno'r trefniadau tecaf posibl yng nghyd-destun systemau sefydledig ardrethi annomestig a'r dreth gyngor".<sup>17</sup>
- 19.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi hefyd y byddai'r pwerau o fewn y Bil yn lleihau'r "ddibyniaeth ar ddarpariaethau y bu'n rhaid eu ceisio yn aml ym Miliâu Senedd y DU er mwyn cyflawni newidiadau ar gyfer Cymru". Yn ogystal, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai "Senedd Cymru fydd yn craffu ar y ddeddfwriaeth berthnasol yn hytrach na Senedd y DU".<sup>18</sup>
- 20.** Cadarnhaodd y Gweinidog y bydd y Bil yn:

*"allow the non-domestic rates and council tax systems in future to be much more agile and responsive and enable Welsh Ministers to tailor the system to meet the particular needs of Wales, and also, of course, give us more power within the Senedd to scrutinise and make decisions in that space as well."*<sup>19</sup>

## Safbwyntiau rhanddeiliaid ar egwyddorion cyffredinol y Bil

---

- 21.** Roedd rhanddeiliaid yn gefnogol ar y cyfan i egwyddorion cyffredinol y Bil. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wrthym fod y Bil yn galluogi'r system drethu i fod yn fwy ymatebol ac y bydd:

*"a specific Wales Bill will help us to move forward to address issues within the non-domestic rates and council tax systems."*<sup>20</sup>

- 22.** Cytunodd y Ffederasiwn Busnesau Bach ("FSB"), y Gymdeithas Manwerthu Elusennol ("CRA") a Chymdeithas Cwrw a Thafarndai Cymru ("WBPA") fod y Bil yn gam i'r cyfeiriad cywir,<sup>21</sup> a chroesawodd Bragdy Robinson, y Shopkeepers'

---

<sup>17</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.13 a 3.15

<sup>18</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.16 a 3.17

<sup>19</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 12

<sup>20</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 227

<sup>21</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 370, 372 a 374

---

Campaign a Chonsortiw m Manwerthu Cymru (“y WRC”) gynigion yn y Bil sy’n ymwneud yn benodol â’r system ardrethi annomestig.<sup>22</sup>

**23.** Nododd y Sefydliad Siartredig Trethu (“CIOT”), er eu bod yn cytuno’n fras â’r ffordd mae amcanion polisi’r Bil wedi’u mynegi:

*“there are terms that need further clarification in order to ensure that you’ve got an appropriate objective and, in particular, where one talks about fairness.”<sup>23</sup>*

**24.** Nid oedd pob ymateb i’n hymgyngoriad yn cefnogi’r Bil yn ei gyfanrwydd, a chanolbwyntiodd nifer o ymatebion yn benodol ar adran 20 (Cyhoeddi hysbysiadau). Ystyrir y rhain yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**25.** Mae Un Llais Cymru yn credu bod y Bil yn colli cyfle, gan awgrymu y gallai’r Bil fod wedi galluogi cyfraniad gan ardrethi busnes lleol tuag at gynghorau Cymuned a Thref:

*“The sector has long argued for this to be the case and carries out a great deal of work in support of town centre economies (and especially during the pandemic). It is anomalous that such a funding stream is not in place.”<sup>24</sup>*

**26.** Croesawodd Sefydliad Bevan ddarpariaethau i newid cyfyngiadau sy’n ymwneud â gostyngiadau, disgowntiau a diystyriadau yn y dreth gyngor, y maent yn nodi eu bod yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddylunio cynlluniau sy’n diwallu anghenion pobl Cymru yn well. Fodd bynnag, gwnaethant fynegi siom nad yw’r Bil yn cyflwyno diwygiadau mwy.<sup>25</sup>

**27.** Er eu bod yn deall y sail resymegol i’r newidiadau a nodir yn y Bil, nododd Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl (“NRLA”) y byddant yn:

*“taking a keen interest in the further legislation that will be required to enable council tax reform.”<sup>26</sup>*

---

<sup>22</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), [ymatebion i'r ymgynghoriad](#)

<sup>23</sup> Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [25 Ionawr 2024](#), Cofnod y Trafodion, paragraff 5

<sup>24</sup> Un Llais Cymru, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

<sup>25</sup> Sefydliad Bevan, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

<sup>26</sup> NRLA, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

---

## Is-ddeddfwriaeth

---

**28.** Mae'r Bil yn darparu pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth mewn sawl maes. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod hyn oherwydd bod “angen y gallu i wneud newidiadau mewn modd amserol er mwyn addasu'r systemau mewn ymateb i flaenoriaethau, amgylchiadau a phwysau sy'n newid”. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai'r pwerau arfaethedig yn:

*“Ileihau ein dibyniaeth ar ddarpariaethau y bu'n rhaid eu ceisio yn aml ym Miliâu Senedd y DU er mwyn cyflawni newidiadau ar gyfer Cymru o fewn deddfwriaeth sylfaenol gyfredol.”<sup>27</sup>*

**29.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Llywodraeth Cymru, ers 2011, wedi gorfod defnyddio Biliau Llywodraeth y DU ar o leiaf 13 o achlysuron er mwyn “gwneud newidiadau angenrheidiol i'r systemau ardrethi annomestig a system y dreth gyngor” ac, os bydd darpariaethau o sylwedd yn cael eu cynnwys ar yr wyneb y Bil yn lle'r cynigion i Weinidogion Cymru gymryd pwerau i wneud darpariaeth mewn is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol, y byddent yn “annhebygol o sefyll prawf amser”.<sup>28</sup>

**30.** Nododd rhai tystion bryderon penodol ynghylch y pwerau gwneud rheoliadau eang yn y Bil a fyddai'n cael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

**31.** Dywedodd y CIOT wrthym eu bod yn teimlo bod y ddeddfwriaeth yn mynd ychydig yn rhy bell o ran defnyddio is-ddeddfwriaeth ac:

*“the legislative process should reflect the significance of business rates and council tax in raising revenue in Wales and therefore the importance of the Senedd's scrutiny to work through the legislation and understand the full consequences [...] the extensive use of wide regulatory powers in this Bill undermines the essential work of the Senedd, and other interested parties, in scrutinising the government and its legislative proposals with the potential for unintended consequences and a lack of certainty and instability for businesses in Wales.”*

---

<sup>27</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.16

<sup>28</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.17

**32.** Gwnaethant ychwanegu y dylai is-ddeddfwriaeth, yn eu barn nhw:

*“generally be reserved for administrative matters, and for the setting of rates.”<sup>29</sup>*

**33.** Gan ganolbwyntio’n benodol ar ostyngiadau’r dreth gyngor, nododd Sefydliad Bevan bryderon y byddai’r newidiadau’n digwydd drwy is-ddeddfwriaeth, ac:

*“the principles of any new scheme should be debated by the Senedd with subordinate legislation addressing matters of detail such as thresholds.”<sup>30</sup>*

**34.** Cydnabu’r Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw (“IRRV”) y cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth wrth ddiweddarau darpariaethau deddfwriaethol, a gwnaethant nodi bod angen proses ymgynghori a sail resymegol glir ar gyfer unrhyw newidiadau:

*“I can see why, with secondary legislation, there are some concerns, because you can make changes relatively quickly, but there needs to be clear support and rationale for the process of making changes.”<sup>31</sup>*

**35.** Cytunodd y CIOT â’r farn hon, gan ddweud wrthym:

*“provided that there’s appropriate scrutiny permitted wherever discretion is provided—as long as there’s a process in place for opportunity to be provided for yourselves, the committee and for stakeholders to be able to make their views known, then it seems to me that, as long as the system is rigorous and subject to scrutiny, that’s perfectly fine.”<sup>32</sup>*

**36.** Nododd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (“IFS”) bryderon hefyd ynghylch y pwerau gwneud rheoliadau eang a gynigir yn y Bil, a bod rhaid i’r cyfiawnhad dros eu cynnwys, er mwyn ymateb yn hyblyg ac yn brydlon, gael ei gwrthbwysu yn erbyn lleihad yn y cyfleoedd ar gyfer craffu a dadlau.<sup>33</sup>

---

<sup>29</sup> Y Sefydliad Siartredig Trethu (CIOT), [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

<sup>30</sup> Sefydliad Bevan, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

<sup>31</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 13

<sup>32</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 20

<sup>33</sup> Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS), [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

---

**37.** Serch hynny, er bod yr IFS yn cydnabod manteision hyblygrwydd a disgresiwn i Weinidogion, gwnaethant nodi:

*“things as important as determining the tax liabilities that households and businesses should face ought, where possible, to be in primary legislation and enable the additional scrutiny, and so on, that goes along with that.”<sup>34</sup>*

**38.** Cyfeiriodd yr IFS at y dull a ddefnyddiwyd gan y Senedd wrth ddirprwyo pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru yn Neddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 mewn perthynas â'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi, sef rhoi disgresiwn, ond dim ond disgresiwn i newid y rhain o dan amgylchiadau penodol. Gwnaethant roi enghreifftiau o'r amgylchiadau hynny a oedd yn cynnwys ymateb i benderfyniadau a wnaed gan lysoedd a thribiwnlysoedd neu i amddiffyn rhag osgoi trethi.<sup>35</sup>

**39.** Dywedodd y Gweinidog wrthym mai pwrpas allweddol cael pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth mewn nifer o feysydd trethiant lleol yw sicrhau y gall Llywodraeth Cymru fod yn ymatebol i amgylchiadau sy'n newid:

*“So, it's really about being able to be agile, because we know that when things are set out in primary legislation, it's very difficult then to amend them. [...] So, it's about trying to be proportionate, and using the secondary legislation system in the negative procedure for things like the examples I've just given, or affirmative where we can have full scrutiny and so on through the Senedd for things that are more substantial, particularly those that relate to the entitlements that people have, which we'd obviously want to consult on as well.”<sup>36</sup>*

**40.** Ychwanegodd y Gweinidog yn ddiweddarach:

*“we have considered what [is] appropriate to add on the face of the Bill, and, given the way in which developments happen in the council tax space and non-domestic rates space, it's important, really, that the legislation that we do have will stand the test of time. So, in that sense, I think that secondary legislation, in many cases, is the appropriate way to make*

---

<sup>34</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 9

<sup>35</sup> IFS, tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>36</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 192

---

*changes to have a system, really, that's fit for purpose for the future.*"<sup>37</sup>

**41.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am y defnydd o ymgynghori statudol cyn defnyddio'r pwerau arfaethedig yn y Bil. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yng nghyd-destun ei dyletswyddau cyfreithiol ar ymgynghori, ac ychwanegodd fod ganddi ddull a pholisi sefydledig o ran ymgynghori â rhanddeiliaid.<sup>38</sup> Ychwanegodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru:

*"The Bill itself, I don't think, leads itself to any more statutory consulting process, when we have a strong record and we do follow the process already and have shown over the last decade consistent consultation in this area."*<sup>39</sup>

## **Adolygiad ôl-weithredu**

---

**42.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid ac awdurdodau lleol "er mwyn monitro a gwerthuso effaith y diwygiadau i gyllid llywodraeth leol." Mae'n dweud:

*"Ar gyfer pob un o'r darpariaethau yn y Bil, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y cynhelir asesiadau parhaus o'r ffordd y mae'r ddeddfwriaeth wedi cael ei rhoi ar waith ac wedi dylanwadu ar fwriad y polisi. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd dwyochrog â'r Gweinidogion perthnasol er mwyn trafod a monitro cynnydd."*<sup>40</sup>

**43.** Nododd y CIOT bwysigrwydd mynegi diben Bil yn glir a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar waith ôl-weithredu:

*"what we are very keen on in relation to almost any Bill of legislation is that there is a post-implementation review process for being able to assess whether or not those policy objectives have been met, and that requires, of course, the policy objectives to be articulated, be appropriately measured and then evaluated against outcomes."*<sup>41</sup>

---

<sup>37</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 20

<sup>38</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 24

<sup>39</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 25

<sup>40</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraffau 11.4 ac 11.5

<sup>41</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 115

---

**44.** Dywedodd y Gweinidog:

*"I think it's important for the implementation of the legislation to be subject to ongoing review, and there is obviously an established process in place already for managing the post-legislative review of the Bill's provisions. [...] I think that the important factor here is that, mainly because of the fact that many of the provisions in the Bill will be developed later, so in secondary legislation, probably it wouldn't be appropriate to have on the face of the Bill a date or a process for review. I think that it will inevitably be subject to that review work. We would need to develop those clear plans for review work at a later date so that we can assess the effectiveness of any regulations or reliefs and so on flowing from this work."<sup>42</sup>*

## Ein barn ni

**45.** Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd i ni ar yr ystod eang o ddarpariaethau yn y Bil hwn, rydym wedi dod i'r casgliad, at ei gilydd, ac o'i ystyried yn ei gyfanrwydd, ein bod yn cefnogi ei egwyddorion cyffredinol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod nifer o feysydd y mae angen i Lywodraeth Cymru eu hystyried ymhellach. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ein hystyriaeth o bob un o'r darpariaethau yn y Bil a'n hargymhellion dilynol, sy'n ceisio gwneud y gwelliannau y credwn sydd eu hangen i gryfhau'r ddeddfwriaeth hon.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymhell y dylai'r Senedd gytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru).

## Is-ddeddfwriaeth

**46.** Rydym yn cydnabod bod y Bil hwn, yn rhannol, yn Fil galluogi, sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer nifer o newidiadau polisi yn y dyfodol i'w gwneud gan Weinidogion Cymru mewn is-ddeddfwriaeth.

**47.** Rydym yn rhannu rhai o'r pryderon a godwyd ynghylch sicrhau cydbwysedd rhwng defnyddio deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth i wneud newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol mewn perthynas â threthiant lleol. Cytunwn â'r farn y dylai materion sy'n ymwneud â pholisi treth, fel rheol, gael eu cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol, ond rydym hefyd yn cydnabod y farn nad yw hyn yn darparu ar gyfer system drethiant hyblyg ac ymatebol. Un o'n pryderon, yn benodol, yw bod y llwybr is-ddeddfwriaeth yn darparu cyfleoedd cyfyngedig ar

---

<sup>42</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 9



gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a chraffu gan y Senedd. Nodwn fod y Bil yn darparu ar gyfer y posibilrwydd o gyflwyno polisiau newydd sylweddol, ac y byddai rhai ohonynt yn sefydlu system o gosbau ariannol. Gall y rhain gyfrannu at rai canlyniadau anfwriadol i dalwyr ardrethi, a chael effaith ar yr economi. Nodwn fod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi ystyried yn fanwl y pwerau a gynigir yn y Bil hwn ac wedi amlinellu ei bryderon yn ei adroddiad.<sup>43</sup>

**48.** Yn ein barn ni, oherwydd natur y newidiadau posibl y gellid eu gwneud mewn rheoliadau yn y dyfodol, dylai darpariaethau penodol yn y Bil fod yn ddarostyngedig i gyfle ychwanegol i'r Senedd graffu arnynt. Er ein bod yn nodi y byddai'r rhan fwyaf o'r rheoliadau y darperir ar eu cyfer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, mae nifer o ddarpariaethau penodol y credwn y dylent fod yn ddarostyngedig i uwch-weithdrefnau cymeradwyo, a sicrhau drwy hynny bod pwyllgorau perthnasol y Senedd yn cael amser priodol i graffu arnynt cyn i gyfraith gael ei gwneud yn y meysydd hyn. Felly, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i ddarparu ar gyfer isafswm cyfnod o 60 diwrnod, ac eithrio cyfnodau o ddiddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar reoliadau drafft penodol a gynigir o dan y pwerau yn:

- adrannau 5 (Pwerau i roi ac amrywio rhyddhadau, a'u tynnu'n ôl) a 9 (Pwerau i roi ac amrywio esemptiad, a'i dynnu'n ôl), pan fo'r pwerau i'w defnyddio i roi rhyddhadau neu esemptiadau, neu eu tynnu'n ôl;
- adran 10 (Cyfrifo lluosyddion ardrethu annomestig), pan fo'r pwerau i'w defnyddio i ddarparu ar gyfer lluosyddion gwahaniaethol;
- adran 13 (Trefniadau artiffisial i osgoi ardrethu annomestig), wrth bennu trefniadau osgoi artiffisial; ac
- adran 18 (y dreth gyngor - disgowntiau), ac eithrio wrth newid cyfraddau disgownt.

**49.** Ymhellach, nodwn fod gan Lywodraeth Cymru "ddull sefydledig" o ran ymgynghori â rhanddeiliaid. Fodd bynnag, fel y dywedwyd yn flaenorol, rydym yn ymwybodol y byddai'r darpariaethau yn y Bil yn caniatáu i newidiadau polisi sylweddol o bosibl gael eu gwneud yn y dyfodol drwy is-ddeddfwriaeth, a allai effeithio ar sectorau a thalwyr ardrethi penodol. Mae'n hanfodol bod rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ddatblygiadau polisi newydd sydd â'r potensial i effeithio'n sylweddol ar yr economi, a'u bod yn cael eu hysbysu'n llawn am

---

<sup>43</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Adroddiad ar y Bil Cyllid Llywodraeth Leol \(Cymru\)](#), Mawrth 2024

---



unrhyw ddatblygiadau o'r fath. Credwn felly fod angen ymrwymiad i gynnal ymgynghoriad statudol cyn gwneud unrhyw newidiadau o'r fath mewn rheoliadau. Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad cyn gwneud rheoliadau o dan adrannau penodol, fel y nodir isod:

- adrannau 5 (Pwerau i roi ac amrywio rhyddhadau, a'u tynnu'n ôl) a 9 (Pwerau i roi ac amrywio esemptiad, a'i dynnu'n ôl), pan fo'r pwerau i'w defnyddio i roi rhyddhadau neu esemptiadau, neu eu tynnu'n ôl;
- adran 10 (Cyfrifo lluosyddion ardrethu annomestig), pan fo'r pwerau i'w defnyddio i ddarparu ar gyfer lluosyddion gwahaniaethol; ac
- adran 18 (y dreth gyngor - disgowntiau), ac eithrio wrth newid cyfraddau disgownt.

**50.** Rydym yn archwilio pob un o'r adrannau a nodir uchod, a'n pryderon penodol yn eu cylch, yn fanylach ym mhenodau diweddarach ein hadroddiad.

### **Adolygiad ôl-weithredu**

**51.** Nodwn sylwadau'r Gweinidog ei bod yn bwysig i weithrediad y ddeddfwriaeth fod yn destun adolygiad parhaus, ac na fyddai'n briodol pennu terfyn amser ar gyfer adolygiad ôl-ddeddfwriaethol gan nad yw polisïau wedi'u datblygu eto. Fodd bynnag, pe bai'n dod i'r amlwg nad yw pwerau yn y Bil hwn wedi'u defnyddio o fewn amserlen benodol, byddai'n ddilys adolygu priodoldeb parhaus dirprwyo'r pwerau hynny i Lywodraeth Cymru.

**52.** Credwn felly y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gynnal adolygiad o weithrediad ac effaith y pwerau a gynigir o dan adrannau 5, 9, 10, 13 a 18 o'r Bil cyn diwedd y Seithfed Senedd. Dylai adolygiad o'r fath gynnwys:

- asesiad gan Weinidogion Cymru o fecanweithiau deddfwriaethol amgen ar gyfer gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth Cymru yng nghydestun rhyddhadau, esemptiadau, lluosyddion a darpariaethau gwrthosgoi mewn perthynas ag ardrethu annomestig, a disgowntiau'r dreth gyngor; a
- gofyniad i ymgynghori â'r Senedd, i sicrhau bod pwyllgorau perthnasol yn cael cyfle i roi eu barn.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Bil i gynnwys gofyniad i gynnal adolygiad statudol o'r defnydd o bwerau o dan adrannau 5, 9, 10, 13 a 18 o'r Bil. Dylai'r adolygiad gael ei gynnal cyn diwedd y Seithfed Senedd a dylai gynnwys:

- asesiad gan Weinidogion Cymru o fecanweithiau deddfwriaethol amgen ar gyfer gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth Cymru yng nghydestun rhyddhadau, esemptiadau, lluosyddion a darpariaethau gwrthosgoi mewn perthynas ag ardrethu annomestig, a disgowntiau'r dreth gyngor; a
- gofyniad i ymgynghori â'r Senedd.

### 3. Rhan 1 – Ardrethu annomestig

Mae Rhan 1 o'r Bil yn diwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Mae'n gwneud darpariaethau ynghylch rhestrau ardrethu, rhyddhadau, hysbysiadau cwblhau, rhyddhad yn ôl disgrisiwn, esemptiadau, lluosyddion ardrethu annomestig, darparu gwybodaeth, gwrthosgoi, a gorchmynion a rheoliadau.

#### Rhestrau ardrethu

##### Rhestrau ardrethu lleol a chanolog

---

**53.** Mae Adran 2 yn mewnosod darpariaeth newydd yn Neddf 1988 sy'n diwygio'r trefniadau ar gyfer llunio rhestrau ardrethu lleol. Y rhestr ardrethu leol yw'r rhestr o eiddo annomestig mewn ardal leol sy'n destun ardrethi annomestig (a elwir hefyd yn ardrethi busnes). Mae'n cofnodi gwerth ardrethol pob hereditament, a ddefnyddir i gyfrifo atebolrwydd i dalu ardrethi busnes.

**54.** Gyda'r cylch ailbriso yn cael ei gynnal bob pum mlynedd ar hyn o bryd, byddai'r darpariaethau yn y Bil yn newid hyn i unwaith bob tair blynedd. Dywed y Memorandwm Esboniadol fod "pob un o wledydd y DU yn ystyried cylchoedd ailbriso byrrach".<sup>44</sup> O dan ddarpariaethau'r Bil hwn, byddai'r rhestr ardrethu leol nesaf yn cael ei llunio ar 1 Ebrill 2026 (yn hytrach nag 1 Ebrill 2028 fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd o dan Ddeddf 1988).

**55.** Cedwir gofynion ar Asiantaeth y Swyddfa Briso ("y VOA") i baratoi a chynnal rhestrau, ond byddai dyletswydd newydd ar awdurdodau bilio (awdurdodau lleol) i gadw copi o'r rhestrau a luniwyd yn electronig.

**56.** Mae Adran 3, yn unol ag adran 2, yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf 1988 sy'n diwygio'r trefniadau ar gyfer llunio rhestrau ardrethu canolog. Mae'r rhestr ganolog yn cynnwys hereditamentau rhwydwaith sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol, megis seilwaith trafniadaeth a chyfleustodau o bwys.

---

<sup>44</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.31

**57.** Bydd y cyfnod ailbrisiu ar gyfer y rhestr ganolog yn byrhau o bum mlynedd i dair blynedd hefyd, gan ddilyn yr un cylch ailbrisiu ag y cynigiwyd ar gyfer rhestrau ardrethu leol. Gan fod y rhestr ganolog yn cofnodi asedau sy'n croesi sawl ardal awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gadw copi o'r rhestr. Mae'r Bil yn diwygio'r gofyniad hwnnw i ddarparu bod rhaid i Weinidogion Cymru gadw copi o'r rhestr yn electronig.

**58.** Clywsom gefnogaeth eang ar gyfer cylchoedd ailbrisiu byrrach, gyda'r IFS yn nodi y byddent yn welliant ar y system bresennol, ond y byddent yn golygu rhai costau gweinyddol ychwanegol.<sup>45</sup>

**59.** Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach fod y cylchoedd ailbrisiu presennol wedi golygu mwy o angen i ddarparu atebion tymor byr drwy ryddhadau i sectorau yr effeithir arnynt gan ergydion allanol, gan wneud y system yn llawer mwy cymhleth ar yr un pryd. Fodd bynnag, roeddent yn mynnu hefyd na ddylai ailbrisiadau mwy rheolaidd arwain yn awtomatig at ardrethi uwch i fusnesau gyda'r nod o sicrhau'r refeniw uchaf posibl.<sup>46</sup>

**60.** Croesawodd y sector tafarndai a bragdai fanteision ailbrisiadau rheolaidd bob tair blynedd. Dywedodd y WBPA y byddai'n darparu ar gyfer biliau ardrethi annomestig mwy cywir i fusnesau, gan leihau newidiadau mawr o un cyfnod ailbrisiu i'r nesaf. Fodd bynnag, rhybuddiodd hefyd na ddylai ailbrisiadau rheolaidd roi gormod o faich ar fusnesau, yn enwedig y ddyletswydd i hysbysu'r VOA am newidiadau sy'n effeithio ar atebolrwydd ardrethi.<sup>47</sup>

**61.** Roedd y WRC hefyd o blaid y cynnig i gyflwyno ailbrisiadau bob tair blynedd, gan nodi bod angen i brisiadau gael eu cysylltu'n agosach â gwerthoedd y farchnad. Gwnaethant awgrymu bod budd i ailbrisiadau blynyddol a fyddai'n negyddu'r angen i ddylunio cynlluniau rhyddhad trosiannol ac yn lleihau apeliadau'n sylweddol. Daeth y WRC i'r casgliad canlynol:

*"the reduced valuation period of three years strikes the right balance between a link to market values, predictability, and administrative burden."<sup>48</sup>*

**62.** Roedd yr IRRV hefyd o blaid cynyddu mynychder ailbrisiadau, yn ogystal â rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ddiwygio'r flwyddyn ailbrisiu a'r bylchau rhwng blynyddoedd ailbrisiu. Dywedon nhw wrthym fod cylchoedd ailbrisiu byrrach yn fuddiol gan eu bod yn adlewyrchu'r newidiadau cymharol yn y

---

<sup>45</sup> IFS, tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>46</sup> Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB), tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>47</sup> Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>48</sup> Consortiwm Manwerthu Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig

farchnad, y dylai fod llai o newidiadau deinamig rhwng rhestrau a'u bod yn arwain at ostyngiad cyffredinol yn lefel yr ad-daliadau yn dilyn apeliadau.<sup>49</sup>

**63.** Dywedodd y VOA wrthym:

*“we can manage that more frequent revaluation cycle, so we're confident that we'll be able to cope with and deal effectively with the requirements of the Bill. Indeed, our past track record demonstrates that we can do that, so it doesn't hold any concerns for us.”<sup>50</sup>*

**64.** Er gwaethaf hyn, derbyniodd y VOA efallai y byddai angen iddynt ofyn am gyllid ychwanegol pe bai'r gofynion yn newid ond, yn yr un modd, gwnaethant nodi y gallai cyllid a ddyrannwyd gael ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru pe bai'n tanwario.

**65.** Dywedodd Tribiwnlys Prisio Cymru (“VTW”) wrthym y byddai angen iddynt gynyddu eu lefelau staffio i fodloni'r llwyth gwaith a ragwelir, a nododd y bydd y rhan fwyaf o'r cynnydd yn ei gyllideb yn mynd ar staffio. Gwnaethant hefyd nodi costau ar gyfer hyfforddi staff a diweddarau technoleg a fyddai'n caniatáu iddynt wasanaethu apeliadau ardrethi annomestig a'r dreth gyngor.<sup>51</sup>

**66.** Dywedodd CLILC eu bod yn derbyn y byddai gwaith ychwanegol i awdurdodau lleol, a bod materion capasiti ac adnoddau yn peri pryder ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gwnaethant nodi o brofiad:

*“it doesn't ordinarily generate a significant amount of work from a local authority perspective, or it hasn't in my experience. Obviously, the more frequent those revaluations, then the more the likelihood for more work to be generated, but I don't think that's something that would be overly burdensome for local authority teams, despite pressures of work and future funding arrangements.”<sup>52</sup>*

**67.** Pan ofynnwyd iddynt a yw llinellau cyllideb yn cael eu haddasu i ganiatáu ar gyfer capasiti ychwanegol, dywedodd CLILC nad ydynt, a bod hynny'n fater o:

---

<sup>49</sup> Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw (IRRV), [tystiolaeth.ysgrifenedig](https://tystiolaeth.ysgrifenedig.gov.wales/)

<sup>50</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 123

<sup>51</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 134

<sup>52</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 233

*“absorbing what comes our way with the resources that we have.”<sup>53</sup>*

**68.** Dywedodd y Gweinidog wrthym:

*“moving to three-yearly revaluations would respond to what businesses have been telling us that they want. And I think it strikes that balance between giving businesses certainty but then also maintaining a tax base that is reflective of up-to-date conditions [...] I’ve mentioned previously, when we’ve had to work with UK Government to change dates of revaluations, that being able to decide that here in Wales, I think, would be important as well. So, that is what that section is about, bringing things up to date and allowing us to be responsive.”<sup>54</sup>*

**69.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pa rymgweithio y bu rhyngddi hi a'r VOA mewn perthynas â'i gallu i ymdrin â'r cynnydd posibl yn y llwyth gwaith. Cadarnhaodd:

*“the VOA is on standby, if you like, for three-yearly revaluations for Wales, which would be in line with what would be happening across the border in any case. So, it’s something that they definitely have the ability and the capacity to deliver.”<sup>55</sup>*

**70.** Yn dilyn hynny, cadarnhaodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru fod y gwaith ar ailbrisiad 2026 eisoes wedi dechrau, a nododd fod ceisio sicrwydd y VOA wedi bod yn hollbwysig er mwyn gallu cyflawni'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y Bil.<sup>56</sup>

**71.** Dywed y Memorandwm Esboniadol y caiff "y costau hyn eu talu'n bennaf gan awdurdodau lleol a fydd yn rhoi ymarfer ailbrisiu newydd ar waith". Cadarnhaodd y Gweinidog:<sup>57</sup>

*“Local authorities are very supportive of what we’re proposing, both on the NDR side and also the council tax side. In reality, they have teams in place in any case dealing with non-domestic rates and also with council tax, both in terms of when a new discount or exemption might be in place or when there’s*

---

<sup>53</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 240

<sup>54</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 43

<sup>55</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 47

<sup>56</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 49

<sup>57</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.25

*a revaluation and so on. So, there'll definitely be some additional work for local authorities, but we would expect some of that to be from within existing capacity and moving people within teams towards different focuses.”<sup>58</sup>*

**72.** Cydnabu un o swyddogion Llywodraeth Cymru y gallai ailbriso'n amlach hefyd arwain at gynnydd mewn ymholiadau a rhyngweithio â'r cyhoedd. Dywedodd wrthym:

*“In fact, that will probably be one of the largest resource implications for local authorities. With both local taxes, we are looking at reforming the appeals system to strip out some of the need for that routine enquiry. So, rather than people having to contact their local authority to ask for basic information about their valuation, whether that's council tax or NDR, much of that will be provided through more automated data-driven services. But, at the same time, we are conscious that there is likely to be an impact on authorities from the point of view of direct contact with members of the public and business owners.”<sup>59</sup>*

### **Dyddiad prisio rhagflaenol**

**73.** Er gwaethaf cefnogaeth eang i gylchoedd ailbriso byrrach, tynnodd rhai tystion sylw at fanteision posibl lleihau'r dyddiad prisio rhagflaenol (“AVD”). O dan y pwerau presennol yn Neddf 1988, mae Gweinidogion Cymru yn pennu'r AVD drwy Orchymyn cyn ailbrisiad wedi'i drefnu. Yn y blynyddoedd diwethaf, pennwyd yr AVD ddwy flynedd cyn cyhoeddi rhestr ardrethu newydd.

**74.** Dywedodd yr IRRV wrthym er eu bod yn cefnogi ailbrisiadau bob tair blynedd ar gyfer ardrethu annomestig, dylai'r AVD leihau o ddwy flynedd i un, a dywedon nhw:

*“Having that shortened AVD to the actual revaluation with three years should ensure that the rating list is more accurate and may well reduce appeals.”<sup>60</sup>*

---

<sup>58</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 56

<sup>59</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 64

<sup>60</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 25

**75.** Cytunodd y CIOT, gan nodi:

*“the basic principle that if you’ve got a tax that is charged on the basis of a value, then having a value that is close to being current value is eminently sensible.”<sup>61</sup>*

**76.** Cytunodd yr IFS hefyd:

*“if it’s possible to reduce the antecedent valuation date or shorten that window, then, almost regardless of the duration of cycle, reducing that length would be a good thing to do.”<sup>62</sup>*

**77.** Cyfeiriodd yr IFS at yr adolygiad o ardrethi busnes a ddigwyddodd yn Lloegr a ystyriodd fod lleihau’r AVD yn rhy anodd yn ymarferol, ond nodon nhw fod yr Alban wedi llwyddo i’w leihau.<sup>63</sup>

**78.** Dywedodd y WBPA wrthym:

*“It is important that the Antecedent Valuation Date (AVD) and Date of Compilation is as close to each other as possible, thus reflecting the property market and rental values more closely.”<sup>64</sup>*

**79.** Yn ôl y WBPA, mae’r patrwm presennol (sef pennu AVDs ddwy flynedd cyn cyhoeddi rhestrau newydd) yn caniatáu naill ai newid mewn gwerthoedd eiddo nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu neu ddigwyddiadau allanol sy’n cymhlethu’r gwaith o bennu’r gwerth rhentu.

**80.** Dywedodd y Gweinidog wrthym:

*“We are working with the VOA to explore the potential for the gap between the AVD and the date of revaluation to be reduced in future. That would be a fundamental change to the system and one which is something that we’re considering in the longer term rather than the more immediate set of reforms. We need to ensure that the more frequent revaluations and the measures that are required to achieve that are embedded first, and that will then form some more detailed consideration of shortening the AVD in future rounds.”<sup>65</sup>*

---

<sup>61</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 27

<sup>62</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 32

<sup>63</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 33

<sup>64</sup> Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>65</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 57

---



## Pŵer i ddiwygio blwyddyn ailbrisio

---

**81.** Mae Adran 4 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio'r flwyddyn ailbrisio a'r ysbeidiau rhwng llunio rhestrau ardrethu lleol a chanolog ar gyfer Cymru. Rhaid i unrhyw newid i'r flwyddyn ailbrisio neu fynychder ailbrisiadau fod yn berthnasol i'r ddwy restr ar yr un pryd.

**82.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Llywodraeth Cymru "yn cydnabod, yn yr hir dymor, y gall fod uchelgais ar gyfer cylchoedd byrrach na'r cylchoedd bob tair blynedd a gynigiwyd."<sup>66</sup> Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi y byddai rheoliadau i ddiwygio'r cylch ailbrisio yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, felly rhaid iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd a'u cymeradwyo ganddi.<sup>67 68</sup>

**83.** Cydnabu'r WRC y bu galwadau am ailbrisiadau blynyddol, ac maent yn awgrymu y byddai hynny'n negyddu'r angen i ddylunio cynlluniau rhyddhad trosiannol ac yn lleihau apeliadau yn sylweddol, ond gwnaethant nodi eu hamheuon ynghylch gallu'r VOA i gynnal ailbrisiadau blynyddol ar hyn o bryd a'r effaith weinyddol ar dalwyr ardrethi o ganlyniad i orfod cymryd rhan mewn proses ailbrisio flynyddol. Fodd bynnag, gwnaethant ychwanegu y byddent yn agored i gefnogi ailbrisiad blynyddol:

*"should VOA capacity and/or systems of data collection be modernised to the extent that annual revaluations are possible and practical for the VOA and ratepayers alike."*<sup>69</sup>

**84.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am furiad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r pŵer i ailbrisio yn amlach na phob tair blynedd. Dywedodd wrthym:

*"The reason why we've got the three years in the Bill is for the cycle to move to a three-yearly one, but providing that kind of level of flexibility that, were circumstances to change and the technology to develop—. But also in a way that provides that stability and certainty for businesses alongside a proper*

---

<sup>66</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.34

<sup>67</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, tabl 5.1

<sup>68</sup> Mae'r weithdrefn gadarnhaol yn darparu na all Gweinidogion Cymru arfer eu pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth oni fydd y Senedd wedi gwneud penderfyniad i gymeradwyo drafft o'r is-ddeddfwriaeth. Felly, mae'r is-ddeddfwriaeth yn cael ei gosod gerbron y Senedd ar ffurf ddrafft, ac ni fydd yn dod i rym oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r drafft.

<sup>69</sup> Comisiwn Manwerthu Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig

*reflection of the value of properties. I think that there are things that could change in future, but no immediate plans.”<sup>70</sup>*

**85.** Ychwanegodd y Gweinidog yn ddiweddarach:

*“in future, technology could change, conditions could change, so there could be a case for more frequent [revaluations], but again, in the first instance, it’s about embedding these particular reforms.”<sup>71</sup>*

## **Ein barn ni**

---

**86.** Rydym yn cydnabod cefnogaeth eang rhanddeiliaid i symud i ailbrizio bob tair blynedd. Rydym yn cydnabod bod hwn yn gylch cymesur, rhesymol, sydd yn amlwg wedi'i hyrwyddo gan randdeiliaid allweddol.

**87.** Rydym yn sylweddoli bod y VTW eisoes wedi nodi'r angen i gynyddu ei lefelau staffio er mwyn ymdrin â'r cynnydd yn y cyfrifoldebau a roddir arno, ac y byddai ei gyllideb yn cael ei chynyddu i dalu'r costau hyn. Fodd bynnag, clywsom y bydd angen amser i hyfforddi staff newydd i'r safon ofynnol. Gwerthfawrogwn y bydd hwn yn gyfnod o newid i'r VTW ac nid ydym yn diystyru'r heriau o ran sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant digonol. Mae'n hanfodol felly fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gan y VTW yr adnoddau a'r capasiti digonol i gyflawni'r llwyth gwaith cynyddol o ganlyniad i symud i ailbrizio'n amlach. Nid oedd pob Aelod o'r Pwyllgor wedi'i sicrhau gan y dystiolaeth a ddarparwyd am gapasiti, yn enwedig capasiti y VTW. Nodwn fod Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r VOA a'r VTW, a bod grŵp teirochrog yn bodoli. Fodd bynnag, os caiff y Bil ei basio, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod prosesau cadarn ar waith i fonitro capasiti a mynd i'r afael â heriau allweddol.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion am y trefniadau sydd ar waith i fonitro capasiti Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Thribiwnlys Prisio Cymru yn dilyn gweithredu cylchoedd ailbrizio byrrach.

## **Y dyddiad prisio rhagflaenol**

**88.** Nodwn y sylwadau a wnaed gan rai tystion mewn perthynas â'r dyddiad prisio rhagflaenol, a'r alwad am ei gwtogi o ddwy flynedd i un. Er ein bod yn cydnabod nad yw'r dyddiad prisio rhagflaenol yn rhan o'r Bil, rydym yn cytuno bod hwn yn faes y mae angen i Lywodraeth Cymru ei ystyried ymhellach. Bydd

---

<sup>70</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 52

<sup>71</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 63

capasiti'r VOA yn allweddol i fwrw ymlaen â hyn ac rydym yn falch bod y Gweinidog eisoes yn cynnal trafodaethau â nhw.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am unrhyw waith sy'n cael ei wneud ac unrhyw gynigion sy'n cael eu hystyried i newid y dyddiad prisio rhagflaenol yn y dyfodol.

## Rhyddhadau

### Pwerau i roi ac amrywio rhyddhadau, a'u tynnu'n ôl

---

**89.** Mae adran 5 yn mewnosod darpariaethau yn Atodlenni 4ZA, 4ZB a 5A o Ddeddf 1988 a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi ac amrywio rhyddhadau ardrethi annomestig a'u tynnu'n ôl yng Nghymru. Rhaid i reoliadau drafft o dan y pwerau hyn gael eu gosod gerbron y Senedd, a'u cymeradwyo ganddi drwy benderfyniad, drwy'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft cyn y gellir eu gwneud.

**90.** Gellid hefyd ddefnyddio'r pwerau i ddiwygio neu ddileu rhyddhadau presennol sydd wedi'u cynnwys yn Neddf 1988, neu newid y rheolau a nodir yn y Ddeddf honno ynghylch sut i gymhwyso rhyddhadau penodol pan fydd mwy nag un rhyddhad ar gael.

**91.** Mae Llywodraeth Cymru yn honni yn ei Datganiad o Fwriad y Polisi y bydd y pwerau newydd yn "rhoi cysondeb a mwy o hyblygrwydd i addasu i amgylchiadau a blaenoriaethau sy'n newid", megis argyfwng economaidd neu iechyd. Byddai hyn yn golygu y gallai Llywodraeth Cymru gyflymu darpariaeth cynllun rhyddhad statudol yn ystod argyfwng o'r fath, yn hytrach na dibynnu ar gynlluniau grant penodol neu ddisgresiwn awdurdodau lleol.<sup>72</sup>

**92.** Roedd tystion yn ansicr ynghylch gallu Gweinidogion i amrywio rhyddhadau neu eu tynnu'n ôl drwy reoliadau. Mynegodd y CRA bryder y gallai hyn arwain at ddiffyg craffu a thryloywder, gan arwain at effeithiau andwyol ar y talwyr ardrethi dan sylw. Dywedon nhw:

*"Whilst there are benefits in relation to making it easier to alter existing reliefs, these benefits would be outweighed by the reduced opportunity for impacted parties to make their concerns known."*<sup>73</sup>

---

<sup>72</sup> Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, Tachwedd 2023

<sup>73</sup> Cymdeithas Manwerthu Elusennol, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

**93.** Ychwanegodd y CRA:

*“There are some examples, not at ministerial level but at local authority level, of some really rapid and rather weird decisions having been made in the area of NDR, and there’s often a lack of transparency associated with those decisions, which does make us uncomfortable. We would not want that to be propagated through the system by allowing it to be much easier to make those kinds of decisions.”<sup>74</sup>*

**94.** Cytunodd yr FSB â’r farn hon, gan nodi y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed, a darparu sail resymegol glir dros benderfyniadau i amrywio rhyddhadau neu eu tynnu’n ôl.<sup>75</sup> Gan gyfeirio at y rhyddhad lletygarwch a hamdden, dywedodd y WBPA wrthym am eu pryder ynghylch y posibilrwydd y byddai'n cael ei ddiwygio neu ei dynnu’n ôl heb unrhyw ymgynghoriad mawr.

**95.** Dywedodd y WBPA wrthym:

*“we do need that due diligence and making sure that, when these powers are exercised, there are some safeguards in making sure that it's still going through all due process.”<sup>76</sup>*

**96.** Mynegodd y CIOT bryder y gallai rhyddhadau neu esemptiadau a ddarperir i un sector osod atebolrwydd i dalu treth ar sectorau eraill yn anuniongyrchol. Ychwanegon nhw:

*“we consider that substantive changes to reliefs should be in primary legislation to provide appropriate scrutiny and effective development of policy through consultation to avoid unintended consequences and scrutinise significant policy decisions.”<sup>77</sup>*

**97.** Ategwyd y farn hon gan y Shopkeepers’ Campaign, a ddywedodd fod dileu’r angen am ddeddfwriaeth sylfaenol i roi ac amrywio rhyddhadau, a’u tynnu’n ôl, yn gam diangen na fydd ond yn cymhlethu’r system ymhellach, yn enwedig i’r buddsoddwyr mewn eiddo tirol manwerthu hynny sydd â phortffolios yng Nghymru a Lloegr. Gwnaethant awgrymu:

---

<sup>74</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 414

<sup>75</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 416

<sup>76</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 419

<sup>77</sup> CIOT, tystiolaeth ysgrifenedig

*“The power to set and alter reliefs must remain as one only granted by primary legislation.”<sup>78</sup>*

**98.** Dywedodd CLILC y byddai'n disgwyl i Lywodraeth Cymru ddarparu rhywfaint o gyllid pe bai rhyddhadau ychwanegol yn cael eu cyflwyno, a galwodd am ddyfarnu rhyddhad yn awtomatig, gan fod gofynion ar dalwyr ardrethi i gwblhau cais yn creu llwythi gwaith gweinyddol newydd i dimau awdurdodau lleol a chostau.<sup>79</sup>

**99.** Galwodd CLILC hefyd am eithrio rhai mathau o eiddo busnes yn hytrach na rhoi rhyddhadau tymor byr. Yn ogystal, nodwyd y gallai unrhyw newidiadau gan reoliadau yn y dyfodol gael effaith ar gostau meddalwedd, oherwydd:

*“Any development that needs to be done to the operating systems generally comes at a cost, so we'd need to factor that in.”<sup>80</sup>*

**100.** Dywedodd y Gweinidog fod diffyg eglurder a chysondeb yn y sefyllfa bresennol, a nododd:

*“having the opportunity to make changes through secondary legislation would be beneficial, because it would allow Welsh Ministers to respond in a more agile way to changes or to opportunities, and it would also allow the Senedd the opportunity, then, to scrutinise when those are laid as draft affirmative regulations, which would obviously be accompanied by all of the requisite RIAs, and so on, for scrutiny as well. So, I think it would definitely be an improvement, both in terms of the ability to respond more quickly, but also the opportunities for the Senedd to scrutinise.”<sup>81</sup>*

**101.** Ychwanegodd y Gweinidog:

*“Local authorities will still have the ability to exercise some discretion in relation to their local circumstances.”<sup>82</sup>*

---

<sup>78</sup> The Shopkeepers' Campaign, [tystiolaeth.ysgrifenedig](http://tystiolaeth.ysgrifenedig)

<sup>79</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 268

<sup>80</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 269

<sup>81</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 69

<sup>82</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 71

---

**102.** O ran costau gweinyddol i awdurdodau lleol o ganlyniad i unrhyw newidiadau mewn rhyddhadau, cadarnhaodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru:

*“any mandatory reliefs are taken into account in the settlement calculations, so we build in assumptions about the cost of reliefs when identifying how much rates revenue there will be to distribute each year.”<sup>83</sup>*

### **Hereditamentau heb eu meddiannu: rhyddhad ardrethi elusennol**

---

**103.** Mae adran 6 yn ceisio cryfhau'r broses ar gyfer hawlio rhyddhad ardrethi elusennol ar gyfer hereditamentau heb eu meddiannu gan elusennau a chlybiau cofrestredig. Byddai'n ofynnol i elusennau ddarparu tystiolaeth ddogfennol ychwanegol er mwyn elwa ar y rhyddhad. Byddai hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod bilio perthnasol fod yn fodlon bod y rheswm pam mae'r eiddo heb ei feddiannu yn ymwneud â dibenion elusennol yr elusen sy'n hawlio rhyddhad (pan gaiff ei hawlio gan elusennau), ac y bydd y defnydd nesaf o'r eiddo yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol neu glwb cofrestredig. Mae hyn er mwyn mynd i'r afael ag osgoi ardrethi annomestig.

**104.** I hawlio rhyddhad, byddai angen i elusen neu ymddiriedolwr elusen ddarparu copi i'r awdurdod bilio o'i chyfrifon diweddaraf a'i hadroddiad blynyddol diweddaraf (os yw'n ofynnol i un gael ei baratoi o dan adran 162(1) neu 168(3) o Ddeddf Elusennau 2011). Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai hyn yn galluogi awdurdod bilio i:

*“edrych y tu hwnt i statws elusennol sefydliad ac i ystyried a yw nodau'r elusen, y defnydd y bwriada ei wneud o'r hereditament a'r rheswm pam nad yw wedi'i feddiannu, yn gydnaws.”<sup>84</sup>*

**105.** Drwy'r ddarpariaeth hon, mae Llywodraeth Cymru'n gobeithio y byddai'r gofynion ychwanegol yn "darparu tystiolaeth bellach bod y talwr ardrethi yn elusen weithredol". Mae'r Memorandwm Esboniadol yn honni na fyddai'r amodau ychwanegol yn gosod "baich gweinyddol anghymesur ar drethdalwyr mewn achosion dilys".<sup>85</sup>

---

<sup>83</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 75

<sup>84</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.34

<sup>85</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.42

---

**106.** Roedd tystion gan gynnwys yr FSB, yr IRRV a'r CRA yn gefnogol ar y cyfan i'r newid arfaethedig.<sup>86</sup> Dywedodd y CRA:

*"I think in terms of empty property relief, not many of our members actually have empty properties. Why would you do that? There's not much point in leasing a property and then not using it. So, I don't think it's a huge problem for them. There might be situations where they're undertaking a lot of refurbishment, in which case the property is empty. So, I think we think the proposals in the Bill are proportionate and reasonable, actually."<sup>87</sup>*

**107.** Nododd CLILC y byddai canllawiau ar gyfer cynlluniau rhyddhad yn ddefnyddiol:

*"Welsh Government have done that for other relief schemes that have been introduced recently, such as the retail, leisure and hospitality scheme. They've provided guidance to go with that, which certainly helps."<sup>88</sup>*

**108.** Gwnaethom gwestiynu sut y byddai Llywodraeth Cymru yn sicrhau dull gweithredu cyson ar draws pob awdurdod lleol wrth fodloni eu hunain bod hereditament i'w ddefnyddio at ddibenion elusennol yn y dyfodol. Dywedodd swyddog wrthym:

*"there is an existing mandatory relief for charities. So, local authorities are experienced in being able to identify who is eligible for that relief. So, the powers in the Bill are an extension, in many ways, of that validation process. And that issue around consistency is something that we deal with through guidance and discussion, but we would certainly anticipate that anything new as a result of the Bill requiring additional guidance will form part of the implementation process."<sup>89</sup>*

## Ein barn ni

---

**109.** Rydym yn cytuno â'r farn a rannwyd gyda ni gan randdeiliaid ynghylch pwysigrwydd tryloywder pan fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniadau ynghylch amrywio rhyddhadau, a'u tynnu'n ôl. Er ein bod yn

---

<sup>86</sup> FSB, Tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>87</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 423

<sup>88</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 273

<sup>89</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 83



cydnabod safbwynt y Gweinidog y byddai'r darpariaethau yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ymateb i amgylchiadau sy'n newid mewn ffordd fwy hyblyg, rydym hefyd yn cydnabod y gallai unrhyw newidiadau polisi a wneir drwy'r darpariaethau hyn fod â goblygiadau sylweddol. Credwn felly y bydd yn hanfodol i dalwyr ardrethi gael y cyfle i ddweud eu dweud, a bod y Senedd yn cael digon o gyfle i graffu ar gynigion a wneir yn y dyfodol drwy'r darpariaethau hyn.

**110.** Rydym yn argymhell felly y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 14 o'r Bil i ddarparu ar gyfer isafswm cyfnod o 60 diwrnod, ac eithrio cyfnodau o ddiddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, ar gyfer gwaith craffu manylach. Byddai hyn yn caniatáu i bwyllgorau perthnasol y Senedd graffu ar unrhyw reoliadau drafft a gynigir o dan y pwerau yn adran 5, pan fo'r pwerau i'w defnyddio i roi rhyddhadau neu eu tynnu'n ôl. At hynny, rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol yn benodol i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad cyn gwneud rheoliadau o dan y pwerau yn adran 5, pan fo'r pwerau i'w defnyddio i roi rhyddhadau neu eu tynnu'n ôl.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 14 o'r Bil i ddarparu ar gyfer isafswm cyfnod o 60 diwrnod, ac eithrio cyfnodau o ddiddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar unrhyw reoliadau drafft a gynigir o dan y pwerau yn adran 5, pan fo'r pwerau i'w defnyddio i roi rhyddhadau neu eu tynnu'n ôl.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol yn benodol i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad cyn gwneud rheoliadau o dan y pwerau yn adran 5, pan fo'r pwerau i'w defnyddio i roi rhyddhadau neu eu tynnu'n ôl.

**111.** O ran rhyddhad ardrethi elusennol, nodwn gefnogaeth tystion a chytunwn fod gofyniad i ddarparu dogfennaeth ychwanegol yn ddull rhesymol. Er ein bod yn cytuno â'r dull, credwn y bydd yn hanfodol sicrhau bod elusennau'n ymwybodol o'r newidiadau a'u cyfrifoldebau, a'u bod yn cael y cymorth angenrheidiol i fodloni'r gofynion newydd. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw cydymffurfio â'r gofynion yn rhoi baich afresymol ar elusennau. Er y gall sefydliadau elusennol mwy fod mewn sefyllfa dda i ymdrin â gofynion ychwanegol, rydym yn cydnabod bod llawer o elusennau llai yn cael eu staffio'n bennaf gan wirfoddolwyr, y gallai fod angen cymorth ychwanegol.

**112.** Er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ledled Cymru, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol i ddatblygu canllawiau ar gyfer gweithredu'r rhyddhad. Dylai'r gwaith gynnwys ystyriaeth o unrhyw arfer



gorau sy'n bodoli. Dylid gwneud y gwaith hwn cyn i'r darpariaethau yn adran 6 ddod i rym.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu canllawiau ar y gofynion diwygiedig ar gyfer cymhwysra i gael rhyddhad ardrethi elusennol. Dylai'r gwaith gael ei wneud cyn i'r darpariaethau yn adran 6 ddod i rym.

## Hysbysiadau cwblhau

### Hysbysiadau cwblhau ar gyfer adeiladau newydd

---

**113.** Mae adran 7 o'r Bil yn ehangu'r diffiniad o adeilad newydd yn Neddf 1988 at ddiben cyflwyno hysbysiad cwblhau gan awdurdod bilio. Byddai hyn yn galluogi awdurdodau bilio i gyflwyno hysbysiadau cwblhau ar adeiladau sydd wedi'u tynnu oddi ar y rhestr ardrethu gan nad oes modd eu meddiannu dros dro, megis pan fo eiddo masnachol yn cael ei adnewyddu neu ei ymestyn.

**114.** Ar hyn o bryd, mae hysbysiadau cwblhau yn fodd o bennu'r dyddiad yr ystyrir bod eiddo masnachol 'newydd' wedi'i gwblhau, gan ganiatáu i'r VOA gynnal ei phrasiad a rhestru'r adeilad. O dan y darpariaethau newydd, byddai awdurdodau bilio yn gallu defnyddio'r broses hon i ddychwelyd adeilad sy'n bodoli eisoes i'r rhestr cyn gynted â phosibl. Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn cyd-fynd â'r system yn Lloegr, gan sicrhau bod eiddo perthnasol yn cael ei ddwyn i sylw'r VOA mewn "modd mwy amserol".<sup>90</sup>

**115.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai'r newid hwn yn arwain at "gostau gweinyddol bach iawn i awdurdodau lleol", gydag awdurdodau lleol yn awgrymu na fyddai'r newid yn cael "fawr ddim effaith ar nifer yr hysbysiadau cwblhau yr ymdrinnir â nhw". Fodd bynnag, ni ddarparwyd unrhyw amcangyfrif o ran y nifer bras o hysbysiadau ychwanegol a fyddai'n cael eu dyroddi, naill ai'n genedlaethol neu'n lleol.<sup>91</sup>

**116.** Cefnogwyd y cynigion gan yr IRRV a'r FSB.<sup>92</sup> Dywedodd CLILC wrthym:

*"It would allow properties to be brought back into rating quicker and so avoid unnecessary billing delays, which benefits both the authority and the ratepayer themselves. From an operational perspective, I think we've decided quite unanimously across local authorities that this is a positive move"*

---

<sup>90</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.74

<sup>91</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.72

<sup>92</sup> IRRV, tystiolaeth ysgrifenedig; FSB, tystiolaeth ysgrifenedig

*that they wish to see; it will help the process and avoid a period of uncertainty for the ratepayer, waiting to know what their bill is going to be when they're entered back into the rating list.”<sup>93</sup>*

**117.** Fodd bynnag, er bod CLILC yn gefnogol ar y cyfan i'r newid, gwnaethant nodi ei bod yn rhy fuan i wneud sylwadau ar gostau posibl:

*“As it's a new procedure and something that we're not fully aware of the scale of, it will definitely be something that we'd have to monitor, through implementation. And we would hope to be able to continue the dialogue with Welsh Government, and then if it does become something that is much more burdensome and onerous than was expected, it is funded accordingly.”<sup>94</sup>*

**118.** Dywedodd y Gweinidog wrthym mai nod y newidiadau arfaethedig yw gwneud y system yn fwy effeithlon a syml, a'u bod yn well i awdurdodau lleol a hefyd i'r talwr ardrethi.<sup>95</sup>

## **Ein barn ni**

---

**119.** Nodwn sylwadau'r Gweinidog mewn perthynas â'r newidiadau a bod CLILC yn eu cefnogi. Fodd bynnag, nodwn hefyd fod y manylion ynghylch y goblygiadau ariannol yn gyfyngedig ar hyn o bryd. Rydym yn derbyn, gan ei bod yn weithdrefn newydd, y bydd darparu amcangyfrifon cost cadarn yn heriol. Er gwaethaf hyn, rydym yn ymwybodol bod awdurdodau lleol eisoes yn gweithio o fewn cyllidebau tynn ac mai ychydig iawn o hyblygrwydd sydd ganddynt. Mae'n bwysig felly bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i fonitro gweithrediad y ddarpariaeth ac i ddarparu rhagor o gymorth, yn ariannol neu fel arall, pan fo angen.

## **Rhyddhad yn ôl disgrisiwn**

### **Rhyddhad yn ôl disgrisiwn: terfyn amser**

---

**120.** Y tu allan i'r rhyddhadau ardrethi statudol, mae gan awdurdodau bilio ddisgrisiwn i roi rhyddhad ardrethi annomestig i dalwyr ardrethi o dan adran 47 o Ddeddf 1988. Ar hyn o bryd, dim ond o fewn cyfnod o chwe mis ar ôl diwedd y

---

<sup>93</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 290

<sup>94</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 292

<sup>95</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 99

---

flwyddyn ariannol berthnasol y gellir gwneud y penderfyniad i roi neu amrywio rhyddhad ardrethi.

**121.** Byddai adran 8 o'r Bil yn dileu'r cyfyngiad amser presennol o flwyddyn ariannol 2024-5 ymlaen, gan adlewyrchu'r dull a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU ar gyfer awdurdodau bilio yn Lloegr.

**122.** Dywedodd CLILC wrthym mai'r mathau o sefydliadau sy'n elwa ar ryddhad yn ôl disgrisiwn yw sefydliadau nid-er-elw neu gwmnïau menter gymdeithasol. Nodwyd y byddai'r ddarpariaeth yn galluogi cynghorau:

*"to award relief retrospectively where ratepayers have delayed making an application, for example, and that's something that we are able to do at the moment, but, obviously, within the confines of the existing regulations."*<sup>96</sup>

**123.** Nododd CLILC nad oeddent yn disgwyl gweld effaith sylweddol ar gyllidebau cynghorau o ganlyniad i'r newid arfaethedig.<sup>97</sup>

**124.** Cefnogwyd y cynnig hefyd gan yr IRRV a'r FSB.<sup>98</sup> Dywedodd yr FSB:

*"Removing the arbitrary allowance of only awarding or varying the relief in the first 6 months of the financial [year] makes sense as crisis are just as likely happen between October and April."*<sup>99</sup>

**125.** Nododd y CRA ei fod yn newid cadarnhaol, ond ychwanegodd:

*"Decisions to alter eligibility criteria for discretionary rate relief should not apply retrospectively."*<sup>100</sup>

**126.** Dywedodd y Gweinidog wrthym:

*"Local authorities do have quite broad powers to award discretionary relief; they're able to design their own systems in response to localised priorities. We've had to use those discretionary systems in the past, in actual fact, because we haven't been able to do things through Welsh Government*

---

<sup>96</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 27

<sup>97</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 299

<sup>98</sup> IRRV, tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>99</sup> FSB, tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>100</sup> CRA, tystiolaeth ysgrifenedig

*regulations at that point; we've asked local authorities to use their discretion.*"<sup>101</sup>

**127.** O ran cael gwared ar y terfyn chwe mis, dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru ei fod yn rhywbeth y mae awdurdodau lleol eu hunain wedi gofyn amdano, a nododd ei fod yn newid technegol. Esboniodd y swyddog:

*"The kinds of situations where the need arises is where a particular relief has been created by a local authority but the business owner might not have been identified readily at the time. The pandemic is a very good example of when a number of these schemes were established. And actually, what we found was that there was quite a lag in owners identifying that they might be eligible for a particular scheme, so therefore their applications were coming in some time after the expected time frame, and also the process of verifying that they were eligible took time."*<sup>102</sup>

**128.** Ychwanegodd y Gweinidog y bydd y newid yn rhoi mwy o allu i awdurdodau lleol ymateb i achosion ac amgylchiadau unigol a'i fod yn eu helpu i ymateb yn well i angen lleol.<sup>103</sup>

## **Ein barn ni**

---

**129.** Nodwn y byddai'r newidiadau arfaethedig o dan adran 8 yn cysoni'r trefniadau yng Nghymru â'r rhai yn Lloegr, a'u bod wedi cael croeso cynnes ar y cyfan gan randdeiliaid.

## **Esemptiadau**

### **Pwerau i roi ac amrywio esemptiadau, a'u tynnu'n ôl**

---

**130.** Mae Adran 9 yn diwygio Atodlen 5 i Ddeddf 1988 sy'n darparu ar gyfer esemptiadau o ardrethu annomestig. Byddai'r darpariaethau'n rhoi pwerau estynedig i Weinidogion Cymru roi esemptiadau newydd, neu amrywio esemptiadau presennol neu eu tynnu'n ôl, yn yr Atodlen honno.

**131.** Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn nodi, mewn rhai achosion, y gallai prisiad fod yn anodd neu heb unrhyw fudd, neu na ddylai hereditament fod yn ddarostyngedig i atebolrwydd i dalu ardrethi annomestig am gyfnod hirdymor

---

<sup>101</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 104

<sup>102</sup> Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 105

<sup>103</sup> Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 107

---

neu'n barhaol. O ganlyniad, gellir ystyried yr hereditament ar gyfer esemptiad yn hytrach na rhyddhad llawn o'r swm taladwy.<sup>104</sup>

**132.** Mae esemptiadau wedi'u nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol. Byddai'r darpariaethau yn adran 9 yn dileu'r gofyniad i newidiadau i esemptiadau yng Nghymru yn y dyfodol gael eu gwneud gan Ddeddfau Senedd Cymru neu Senedd y DU.

**133.** Gan mai pwerau galluogi yw'r rhain, nid oes unrhyw gynnydd neu leihad uniongyrchol mewn gwariant i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol na thalwyr ardrethi. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi yn ei Hasesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) y byddai unrhyw gynigion am newidiadau i esemptiadau yn destun ymgynghoriad, ac y byddai'r Senedd yn craffu ar y rheoliadau hynny. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad oes modd amcangyfrif unrhyw gostau neu fuddion ariannol posibl gan y byddai hyn yn "dibynnu ar natur benodol y newidiadau a wneir gan reoliadau".<sup>105</sup>

**134.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai mantais allweddol mabwysiadu'r opsiwn hwn yw y byddai'r system ardrethi annomestig:

*"yn addas ar gyfer y dyfodol, a fydd yn fanteisiol i dalwyr ardrethi gan y bydd yn galluogi dull mwy hyblyg ac ymatebol wrth ddylunio a gweithredu rhyddhadau ac esemptiadau".<sup>106</sup>*

**135.** Mynegodd yr FSB ei gefnogaeth i'r ddarpariaeth, ond ychwanegodd:

*"There is a need for scrutiny of Ministerial decisions and to ensure a framework for decisions ensuring they are done on a consistent basis. The reason for any decisions on exemptions should be on public record with a rationale for the decision taken."<sup>107</sup>*

**136.** Wrth gydnabod bod y gallu i wneud penderfyniadau cyflymach o fudd, rhybuddiodd y CRA:

*"it also has the potential issue that, if there is a consideration amongst the ratepayers concerned that those decisions are wrong, it gives them far less time to mount campaigns, to undertake lobbying and advocacy work and to marshal*

---

<sup>104</sup> Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, Tachwedd 2023, tudalen 6

<sup>105</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.44

<sup>106</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.47

<sup>107</sup> FSB, tystiolaeth ysgrifenedig

*resources to do all that. So, although we wouldn't imagine that the Minister would be making decisions by the sweep of a pen, at the same time, we'd want to ensure that there are certain principles built into that decision making that are inviolable—so, transparency, fairness, the ability to hear counterviews not only from infrastructure organisations like ours, but also from individual ratepayers and all of those kinds of things.”<sup>108</sup>*

**137.** Nododd y CIOT bryder y gallai newidiadau i Ddeddf 1988 o ganlyniad i'r darpariaethau yn adran 9 effeithio ar elfennau strwythurol yr ardrethi busnes sydd wedi bod ar waith ers blynyddoedd lawer, felly dywedodd:

*“any policy changes in this area should be subject to full consultation with stakeholders and subsequent scrutiny by the Senedd.”<sup>109</sup>*

**138.** Dywedodd y Gweinidog wrthym:

*“having the opportunity to make changes through secondary legislation would be beneficial, because it would allow Welsh Ministers to respond in a more agile way to changes or to opportunities, and it would also allow the Senedd the opportunity, then, to scrutinise when those are laid as draft affirmative regulations, which would obviously be accompanied by all of the requisite RIAs, and so on, for scrutiny as well.”<sup>110</sup>*

## **Ein barn ni**

---

**139.** Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog ynghylch hyblygrwydd gwneud newidiadau i esemptiadau ardrethi annomestig drwy is-ddeddfwriaeth, ond credwn efallai na fydd gwneud rheoliadau drwy'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn yr achos hwn yn caniatáu digon o amser i'r Senedd graffu arnynt. Yn yr un modd â'r darpariaethau a drafodir o dan adran 5 o'r Bil, rydym yn rhannu pryderon rhanddeiliaid ynghylch effaith bosibl newidiadau polisi y gellid eu gwneud o dan adran 9 o'r Bil. Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 14 o'r Bil i ddarparu ar gyfer isafswm cyfnod o 60 diwrnod, ac eithrio cyfnodau o ddiddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, i ganiatáu i

---

<sup>108</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 413

<sup>109</sup> CIOT, tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>110</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 69

---

bwyllgorau perthnasol graffu ar reoliadau drafft a gynigir o dan y pwerau yn adran 9, pan fo'r pwerau i'w defnyddio'n benodol i roi esemptiadau neu eu tynnu'n ôl.

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 14 o'r Bil i ddarparu ar gyfer isafswm cyfnod o 60 diwrnod, ac eithrio cyfnodau o ddiddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar reoliadau drafft a gynigir o dan y pwerau yn adran 9, pan fo'r pwerau i'w defnyddio'n benodol i roi esemptiadau neu eu tynnu'n ôl.

**140.** O ystyried goblygiadau posibl unrhyw newidiadau i randdeiliaid, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â rhoi esemptiadau neu eu tynnu'n ôl, credwn y dylid sicrhau cyfle i randdeiliaid fynegi eu barn ar newidiadau arfaethedig. Credwn felly y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil fel bod gofyniad penodol ar Weinidogion Cymru i gynnal ymgynghoriad cyn gwneud rheoliadau o dan adran 9, pan fo'r pwerau i'w defnyddio i roi esemptiadau neu eu tynnu'n ôl.

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil fel bod gofyniad penodol ar Weinidogion Cymru i gynnal ymgynghoriad cyn gwneud rheoliadau o dan adran 9, pan fo'r pwerau i'w defnyddio i roi esemptiadau neu eu tynnu'n ôl.

## Luosyddion ardrethu annomestig

### Cyfrifo lluosyddion ardrethu annomestig

---

**141.** Mae adrannau 10 ac 11 yn gwneud darpariaethau ynghylch cyfrifo'r lluosydd ardrethu annomestig, a bennir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru ac a ddefnyddir i gyfrifo atebolrwydd ardrethi annomestig. Mae'r lluosydd yn gweithredu fel elfen allweddol wrth bennu atebolrwydd talwyr ardrethi, gan ei fod yn berthnasol i'r sylfaen drethu gyfan. Mae'n cael ei gynyddu gan chwyddiant blynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), oni bai bod Llywodraeth Cymru yn ei bennu ar lefel wahanol drwy ragnodi ffigur amgen i'w ddefnyddio yn lle'r mynegai hwn.

**142.** Ar hyn o bryd, mae lluosydd unigol yn berthnasol i bob hereditament yng Nghymru - mae hyn yn golygu bod 125,000 o eiddo masnachol yn cael eu trin yn union yr un fath. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau presennol i amrywio'r lluosydd, ond nid i osod lluosyddion gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o hereditamentau.

**143.** Byddai'r darpariaethau yn adrannau 10 ac 11 yn rhoi pwerau newydd i Weinidogion Cymru bennu, drwy reoliadau, wahanol lluosyddion ar gyfer gwahanol ddisgrifiadau o eiddo (y cyfeirir atynt yn y Bil fel "lluosyddion gwahaniaethol").



**144.** Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn nodi:

*“Bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi system fwy hyblyg ar waith a all drin mathau gwahanol o eiddo mewn ffordd fwy penodol er mwyn cyfrannu at uchelgeisiau polisi ehangach (er enghraifft, lluosydd is ar gyfer busnesau ‘gwyrdd’, hereditamentau â gwerth ardrethol is neu'r rhai sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd menter a chynlluniau adfywio strydoedd mawr). Ni fwriedir defnyddio'r pŵer hwn ar hyn o bryd a dim ond ar ôl ystyried y mater yn dryloyw ac ymgynghori â'r cyhoedd y byddai unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud.”<sup>111</sup>*

**145.** Roedd tystion yn pryderu ynghylch symudiadau posibl yn y dyfodol i osod lluosyddion gwahaniaethol.

**146.** Dywedodd yr IRRV er eu bod yn cytuno â'r cynigion, maent yn credu bod cyflwyno lluosyddion a bennir gan leoliad daearyddol neu ddefnydd eiddo yn ddiangen.<sup>112</sup>

**147.** Roedd gan y CIOT bryderon hefyd am y pwerau i osod gwahanol lluosyddion, gan nodi bod risg o greu ansicrwydd ac y byddai ychwanegu amrywiadau i lluosyddion at y cymysgedd hwn yn gwneud y system yn gymhleth iawn, gyda'r posibilrwydd y gallai arwain at ymatebion a chamliwio nas dymunir gan dalwyr ardrethi.<sup>113</sup>

**148.** Ategwyd y farn hon gan yr IRRV, a oedd yn mynnu y gallai amrywio'r lluosydd yn ôl defnydd neu leoliad gamliwio gwerthoedd ardrethol yn y pen draw. Yn yr un modd, nododd WRC y cymhlethdod posibl a allai godi yn sgil ychwanegu amrywiadau pellach ar sail daearyddiaeth, gwerth eiddo neu fath o eiddo.<sup>114</sup>

**149.** Nododd y Shopkeepers' Campaign:

*“Any reform of the business rate system should be pursued with simplicity in mind. Charging different multipliers for different types of business will produce unforeseen complexities.”<sup>115</sup>*

---

<sup>111</sup> Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, Tachwedd 2023, tudalen 7

<sup>112</sup> IRRV, tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>113</sup> CIOT, tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>114</sup> WRC, tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>115</sup> The Shopkeepers Campaign, tystiolaeth ysgrifenedig



**150.** Dywedodd yr IFS:

*“there are actually rarely good reasons for having multipliers that vary across places or across different types of business, or by rateable value, and so on. And I think it usually adds instability and uncertainty into the system.”<sup>116</sup>*

**151.** Ychwanegodd yr IFS fod gan Lywodraeth Cymru ddisgresiwn eisoes dros ryddhadau ac esemptiadau y gellir ei ddefnyddio i gyflawni pethau tebyg iawn i leihau'r lluosydd.<sup>117</sup>

**152.** Roedd yr FSB yn cefnogi'r darpariaethau'n gryf, gan ddweud y byddai'r rhain yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddarparu ar gyfer lluosyddion is i fusnesau llai, yn debyg i'r rhai yn Lloegr a'r Alban. Roeddent yn annog Llywodraeth Cymru, ar ôl i'r Bil gael ei basio, i wneud y defnydd gorau posibl o'r hyblygrwydd hwn i gefnogi busnesau llai. Fodd bynnag, gwnaethant nodi'r canlynol:

*“The basis of any change and variation should be made clear, and any change requires impact assessment and a clear statement on the rationale of how and why any decision was taken.”<sup>118</sup>*

**153.** Dywedodd y WBPA wrthym y byddai'r pŵer i alluogi gosod lluosyddion gwahaniaethol ar gyfer busnesau amrywiol yn adlewyrchiad ac ymateb gwyb i nifer o'r materion yn ymwneud ag ardrethi busnes – gan gynnwys eu diffyg hyblygrwydd ar hyn o bryd. Aethant ymlaen i alw ar Lywodraeth Cymru i roi lluosydd penodol ar waith ar gyfer tafarndai (neu'r sector lletygarwch), a hynny ar gyfradd sylweddol is. Nododd y WBPA fod gan Loegr luosydd gwahanol ar gyfer busnesau bach, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar dafarndai a lletygarwch:

*“Welsh pubs are on average £6,000 worse off than their English counterparts. A lot of that is down to the fact that there are 3,000 pubs in Wales, and 2,700 of them are below what would be the small business multiplier in England, so the £51,000. So, there is a huge, huge portion of pubs that would otherwise be qualifying for the smaller, lower rate multiplier. So, that's one thing to consider. There's a huge opportunity there for pubs across Wales.”<sup>119</sup>*

---

<sup>116</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 65

<sup>117</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 66

<sup>118</sup> FSB, tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>119</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 460

---

**154.** Rhybuddiodd y WBPA yn erbyn lluosyddion yn seiliedig ar faint, gan nodi y gallai wneud busnesau'n gyndyn o dyfu ac ehangu.<sup>120</sup>

**155.** Cyfeiriodd y CRA hefyd at fanteision a chyfleoedd posibl amrywio'r lluosydd, gan ddweud ei fod yn gam i'r cyfeiriad cywir. Nodwyd eu bod am weld lluosyddion is ar gyfer siopau, gan ddileu'r baich ardrethi busnes gormodol ar y stryd fawr.<sup>121</sup>

**156.** Derbyniodd CLILC y gellid defnyddio lluosyddion ychwanegol i gefnogi sectorau penodol megis ynni adnewyddadwy, ond roedd ganddynt bryderon ynghylch y potensial ar gyfer gweithredu haenau o luosyddion. Pe bai cynigion o'r fath yn cael eu gwneud, byddai awdurdodau lleol am weld ymgynghoriad llawn, ynghyd â'r canlynol:

*“clear, detailed assessments, a fully detailed regulatory impact assessment, looking at the perceived impacts and benefits of it, because, technically, you're introducing then a two-tier system into an established tax-collecting mechanism.”*

**157.** Nododd CLILC nad oeddent yn erbyn y ddarpariaeth, ond gwnaethant ddweud bod system sefydlog a hawdd ei deall ar waith ar hyn o bryd, ac ychwanegon nhw y byddai angen i unrhyw gynnydd i'w newid gael ei archwilio'n drylwyr cyn ei roi ar waith.<sup>122</sup>

**158.** Dywedodd y Gweinidog wrthym mai'r diben yw rhoi mwy o opsiynau i Weinidogion yn y dyfodol o ran sut i ddefnyddio'r lluosydd i gefnogi gwahanol sectorau neu i greu newid ymddygiad mewn gwahanol ffyrdd. Esboniodd:

*“It could be that you could create a tiered system based on business size or business location if you wanted to stimulate the economy in particular areas, or types of business—so, businesses will be registered as different sectors. You might want to support a particular sector or drive behaviour change in some ways as well.”<sup>123</sup>*

**159.** Cadarnhaodd y Gweinidog y canlynol:

*“There's no particular proposal on the table at the moment, and anything that did come forward as a proposal would have*

---

<sup>120</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 462

<sup>121</sup> CRA, tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>122</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 301

<sup>123</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 110

*to be subject to consultation and all of the accompanying analysis.*<sup>124</sup>

**160.** Nododd un o swyddogion Llywodraeth Cymru na fyddai'n rhagweld cymhlethdod ychwanegol i berchnogion busnes yn y dyfodol, yn achos unrhyw newidiadau posibl, ac y byddai unrhyw oblygiadau yn disgyn ar Lywodraeth Cymru.<sup>125</sup>

## Ein barn ni

---

**161.** Roedd tystiolaeth rhanddeiliaid yn gymysg ar y darpariaethau a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu lluosyddion gwahaniaethol. Rydym yn cydnabod y manteision posibl sy'n gysylltiedig â gosod lluosydd is, er enghraifft, ar fusnesau bach, fel sy'n wir yn Lloegr. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y risgiau posibl a allai godi wrth bennu lluosyddion gwahaniaethol, a'r posibilrwydd o ganlyniadau anfwriadol. Rydym yn rhannu pryderon rhai rhanddeiliaid am y potensial ar gyfer ystumio'r farchnad o ganlyniad i ddefnyddio'r pwerau a gynigir yn y Bil hwn.

**162.** Nodwn i'r Gweinidog ddatgan nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw fwriad ar hyn o bryd i gyflwyno unrhyw gynnig penodol. Fodd bynnag, pe bai cynigion yn cael eu gwneud yn y dyfodol, mae'n hanfodol bod unrhyw newid polisi a allai effeithio ar sefydlogrwydd economaidd yn cael ei asesu'n llawn ac yn destun craffu llawn a thrylwyr gan y Senedd. Mae hefyd yn allweddol bod rhanddeiliaid yn gallu rhoi eu barn ar bolisïau arfaethedig a thynnu sylw at oblygiadau posibl y bydd angen mynd i'r afael â nhw o bosibl cyn i ddeddfwriaeth bellach gael ei gwneud yn y maes hwn.

**163.** Rydym yn argymhell felly y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 14 o'r Bil i ddarparu ar gyfer isafswm cyfnod o 60 diwrnod, ac eithrio cyfnodau o ddiddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar reoliadau drafft a gynigir o dan y pwerau yn adran 10, pan fo'r pwerau i'w defnyddio i ddarparu ar gyfer lluosyddion gwahaniaethol.

**Argymhelliad 10.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 14 o'r Bil i ddarparu ar gyfer isafswm cyfnod o 60 diwrnod, ac eithrio cyfnodau o ddiddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar reoliadau drafft a gynigir o dan y pwerau yn adran 10, pan fo'r pwerau i'w defnyddio i ddarparu ar gyfer lluosyddion gwahaniaethol.

---

<sup>124</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 112

<sup>125</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 120

---

**164.** Rydym yn deall y pryderon a fynegwyd gan rai rhanddeiliaid am yr ansicrwydd ynghylch y potensial ar gyfer datblygu polisi yn y maes hwn yn y dyfodol, felly rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gryfhau'r trefniadau ymgynghori i leddfu rhai o'r pryderon hynny. Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gynnwys gofyniad penodol ar Weinidogion Cymru i gynnal ymgynghoriad cyn gwneud rheoliadau yn adran 10, pan fo'r pwerau i'w defnyddio i ddarparu ar gyfer lluosyddion gwahaniaethol.

**Argymhelliad 11.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gynnwys gofyniad penodol ar Weinidogion Cymru i gynnal ymgynghoriad cyn gwneud rheoliadau yn adran 10, pan fo'r pwerau i'w defnyddio i ddarparu ar gyfer lluosyddion gwahaniaethol.

## **Darparu gwybodaeth**

### **Gwybodaeth i'w darparu i'r swyddog priso**

---

**165.** Ar hyn o bryd, mae'r VOA yn gallu gofyn am wybodaeth gan dalwyr ardrethi yn ystod y cyfnod cyn ailbriso ardrethi annomestig. Fodd bynnag, nid oes gofyniad i dalwyr ardrethi hysbysu'r VOA yn rhagweithiol am unrhyw newidiadau a allai effeithio ar werth ardrethol yr hereditament.

**166.** Mae adran 12 o'r Bil yn ymestyn i Gymru ddyletswydd gyffredinol ar dalwyr ardrethi i roi gwybodaeth i'r VOA sy'n ymwneud â newid yn hunaniaeth y talwr ardrethi neu a allai effeithio ar fodolaeth, maint neu werth ardrethol eiddo o fewn 60 diwrnod i'r newid perthnasol.

**167.** Mae'r Bil hefyd yn ymestyn i Gymru ddyletswydd bellach i dalwyr ardrethi ddarparu cadarnhad blynyddol i'r VOA, o fewn 60 diwrnod i 30 Ebrill bob blwyddyn, fod yr holl wybodaeth hysbysadwy berthnasol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol wedi'i darparu.

**168.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu amcangyfrif o gost cyflenwi gwybodaeth i'r VOA o dan y dull arfaethedig i dalwyr ardrethi, a fyddai'n cyfateb i £35 y flwyddyn fesul talwr ardrethi ar gyfer blwyddyn gyntaf y system newydd (2026-27), a fydd yn gostwng i £20 ar gyfer pob blwyddyn ddilynol.<sup>126</sup>

**169.** Roedd yr IRRV yn gefnogol i'r ddarpariaeth mewn egwyddor, ond ychwanegon nhw fod angen i'r system fod yn gymesur, gan nodi'r ffaith bod llawer o dalwyr ardrethi yn esempt ar hyn o bryd.<sup>127</sup>

---

<sup>126</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.126

<sup>127</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 69

---

**170.** Yn yr un modd, tynnodd y CIOT sylw at hyn, gan nodi:

*“information obligations will apply to ratepayers who pay no business rates as a result of a relief.”<sup>128</sup>*

**171.** Dywedodd y CIOT wrthym y byddai'r darpariaethau'n arwain at rwymedigaethau newydd yn cael eu gosod ar fusnesau nad ydynt wedi cael llawer o ymwneud â'r system ardrethi busnes hyd yma. Dywedodd y Sefydliad Siartredig Trethu efallai na fyddai rhywfaint o'r wybodaeth sydd ei hangen ar gael yn rhwydd ar ffurf ddigidol, a allai achosi problem gyda'r broses wrth gasglu a chyflwyno'r wybodaeth.

**172.** Nododd CLILC bryderon nad yw'r busnesau hynny sydd â gwerth ardrethol o lai na £6,000 yn ymgysylltu lawer ag awdurdodau lleol. Dywedodd CLILC wrthym:

*“the request, I guess, for information may fall on deaf ears and, obviously, there's provision within the regulations for fines et cetera. So, that may be an issue that I foresee [...] And I suppose the nature of the reliefs, in terms of providing full relief for a rates bill, has meant that many businesses have just lost touch with us, and that's left a gap of information currently. So, there is that potential for ratepayers not to take up the offer from the valuation office to provide information.”<sup>129</sup>*

**173.** Mynegodd y WBPA rai pryderon ynghylch y ddyletswydd newydd, gan fyfyrir ar dystiolaeth debyg y darparodd mewn perthynas â'r un ddyletswydd a gafodd ei rhoi ar waith yn Lloegr. Roedd eu prif bryderon yn ymwneud â'r rhwymedigaethau ychwanegol sy'n cael eu rhoi ar dalwyr ardrethi, gan ddweud eu bod yn eu hystyried yn faich anghymesur ac yn afrealistig i lawer o dafarndai. Tynnodd y WBPA sylw at y cymhlethdod sy'n gysylltiedig â phrisio tafarn:

*“So, if the VOA asks publicans to use this as yet undeveloped online portal, which is critical to the whole thing, to submit within 60 days any changes that could change your fair maintainable trade, we're talking about a lot of cumulative things here. So, when you still have annual confirmations, when you still have a three-yearly review where you have to submit all of the information, when you have someone come around and look at the pub and actually assess it, it seems like this*

---

<sup>128</sup> CIOT, tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>129</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 316

*additional duty to notify with a 60-day time frame is excessive.*<sup>130</sup>

**174.** Ychwanegodd y WBPA eu bod yn teimlo nad oes gan y VOA unrhyw rwymedigaeth amser tebyg:

*“So, they’re asking for it within 60 days from all ratepayers, but then there’s no actual mirrored obligation for transparency or timeliness from the VOA.”*<sup>131</sup>

**175.** Roedd yr FSB yn rhannu rhywfaint o bryder y WBPA, gan nodi pwysigrwydd peidio â bod yn llawdrwm:

*“I think we’ve mentioned already how vague, potentially, that law of 60 days is. That makes it very difficult to judge how leniency works, but I think you do need to err on the side of leniency.”*<sup>132</sup>

**176.** Clywsom hefyd y gallai fod problemau ymarferol i dalwyr ardrethi o ran cydymffurfio â’r gofynion newydd. Dywedodd yr IRRV wrthym:

*“there also needs to be recognition that if they are renting a property from a landlord of some description, the information that is requested may well be out of their control and it would be on their landlord to provide.”*<sup>133</sup>

## **Gwasanaeth ar-lein**

**177.** Er mwyn galluogi proses effeithlon ar gyfer talwyr ardrethi, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y VOA yn cyflwyno gwasanaeth ar-lein "a gynlluniwyd i fod yn hawdd i'w ddefnyddio gan bob talwr ardrethi".<sup>134</sup> Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif mai'r gost o sefydlu a chynnal y gwasanaeth ar-lein fydd £15 miliwn dros y cyfnod o 10 mlynedd a gwmpesir gan yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.<sup>135</sup>

**178.** Cododd y WBPA bryder bod y ddyletswydd newydd yn dibynnu ar borth ar-lein newydd nad yw wedi'i gynllunio na'i brofi eto. Er ei fod yn gefnogol iawn i'r darpariaethau, mynegodd yr IRRV bryderon tebyg ynghylch yr angen i roi'r drefn

---

<sup>130</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 467

<sup>131</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 468

<sup>132</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 479

<sup>133</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 72

<sup>134</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.123

<sup>135</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.125

gydymffurfio ar waith dim ond pan fydd y system ar gyfer darparu gwybodaeth ar waith ac wedi'i phrofi'n llawn.<sup>136</sup>

**179.** Roedd hyn yn rhywbeth y galwodd CLILC amdano hefyd, gan nodi:

*"It's not something that will be achieved quickly and we think there needs to be time to actually get systems in place and the communication flow established before any penalty regimes come in, because it's something that ratepayers are not used to doing."<sup>137</sup>*

**180.** Awgrymodd y CIOT y dylai'r ddeddfwriaeth gael ei hategu gan ganllawiau hygyrch a dealladwy, yn ogystal ag ymgyrch gyfathrebu eang.<sup>138</sup>

**181.** Yn yr un modd, awgrymodd y CRA rai materion ymarferol i'w hystyried cyn gweithredu'r ddyletswydd newydd, sydd hefyd yn ymwneud â chymorth i fusnesau i fodloni'r gofynion newydd:

*"It is important that the Valuation Office Agency invest time and resources in supporting businesses, especially smaller businesses, to meet the new requirements. Whilst the large charity retail chains have access to specialist support on business rates this is not the case for smaller charities, some of which will be largely run by volunteers."<sup>139</sup>*

**182.** Ychwanegodd y CRA y byddai canllawiau ysgrifenedig syml ar gyfer talwyr ardrethi, Cwestiynau Cyffredin a llinell gyngor yn hanfodol.

**183.** Dywedodd yr IRRV wrthym hefyd fod cyfathrebu yn fater ehangach, yn enwedig mewn perthynas ag allgáu digidol, ac y byddai angen mynd i'r afael â hyn cyn gweithredu'r darpariaethau.<sup>140</sup>

**184.** Roedd yr FSB yn cytuno â'r ddarpariaeth mewn egwyddor, ond tynnon nhw sylw hefyd at yr angen i ddarparu canllawiau syml a chllir, gan sicrhau cyn lleied â phosibl o waith papur a sicrhau nad yw'n dod yn fater 'cynllunio' sy'n rhwystro datblygiadau busnes. Nododd yr FSB y bydd y manylion yn bwysig o ran sicrhau nad oes unrhyw faich mawr ychwanegol.<sup>141</sup>

---

<sup>136</sup> IRRV, tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>137</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 318

<sup>138</sup> CIOT, tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>139</sup> CRA, tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>140</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 73

<sup>141</sup> FSB, tystiolaeth ysgrifenedig



**185.** Myfyriodd Awdurdod Cyllid Cymru (“ACC”) ar eu profiad eu hunain o weithredu trethi yng Nghymru, yn enwedig o ran talwyr ardrethi yn gorfod cyflwyno eu gwybodaeth eu hunain. Dywedon nhw wrthym fod eu dull yn “rhoi ymddiriedaeth wrth wraidd y ffordd rydym yn gweithio gyda threthdalwyr a’u hasiantau.” Gwnaethant dynnu sylw at eu gwaith ymgysylltu a dysgu, sy’n eu galluogi i “ddatblygu atebion effeithiol, wedi’u targedu”, a gwella eu canllawiau a’u cefnogaeth i dalwyr ardrethi. Gwnaethant nodi:

*“ein profiad yw nad yw’r gallu i ddarparu polisi effeithlon, er ei fod yn amlwg yn ddibynnol ar ddeddfwriaeth briodol, yn dod i ben gyda’r ddeddfwriaeth, ond yn hytrach dyna’r man cychwyn. Y berthynas â’r cyhoedd sy’n allweddol ar gyfer gweithredu’r ddeddfwriaeth yn esmwyth.”<sup>142</sup>*

**186.** Dywedodd y VOA wrthym eu bod yn awyddus i dalwyr ardrethi ymgysylltu â nhw. Dywedon nhw wrthym hefyd eu bod am sicrhau bod y gofyniad gwybodaeth yn syml ac yn hawdd cydymffurfio ag ef er mwyn osgoi llawer o wybodaeth nad yw’n gywir yn dod i mewn i’r asiantaeth. Dywedwyd wrthym:

*“We’re very much hoping to develop a system that makes extensive guidance unnecessary. The idea very much is that people can sign up online and then follow the step-by-step processes in our service. So, we’re hoping you won’t need to get to grips with lots and lots of printed guidance.”<sup>143</sup>*

**187.** Cadarnhaodd y VOA y bydd yn sicrhau bod gan y rhai nad ydynt ar-lein ffordd arall o ddarparu’r wybodaeth honno:

*“We actually already have quite extensive assisted processes for people who don’t have online access, so it would be an expansion of those and plenty of support through our customer service centres”<sup>144</sup>*

**188.** Cadarnhaodd y Gweinidog na fyddai’r gofyniad newydd i ddarparu gwybodaeth i’r VOA yn cychwyn nes bod y wefan ac ati yn gyfredol ac ar gael i’w defnyddio.<sup>145</sup>

**189.** Eglurodd y Gweinidog yn ddiweddarach:

---

<sup>142</sup> Awdurdod Cyllid Cymru, [tystiolaeth ysgrifenedig](#)

<sup>143</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 178

<sup>144</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 182

<sup>145</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 129

---



*“The VOA is working to deliver the next revaluation in 2026 without the system in place. That’s always been the plan. So, bringing forward this work will help with future revaluations from 2029 onwards. So, there’s definitely plenty of time to ensure that we get this right before it comes into force, and those information duties are commenced. And it will only be brought in once the VOA is clear and satisfied that the system that they have is fit for purpose and that taxpayers can reasonably be expected to comply with it.”<sup>146</sup>*

## **Fframwaith cydymffurfio ac apeliadau**

**190.** Yn ogystal â'r dyletswyddau newydd a osodir ar dalwyr ardrethi i gyflenwi gwybodaeth, mae adran 12 o'r Bil hefyd yn ymestyn i Gymru fframwaith cydymffurfio ac apeliadau mewn perthynas â methu â chydymffurfio â'r dyletswyddau gwybodaeth newydd.

**191.** Mae'r darpariaethau a gynigir gan adran 12 yn cynnwys:

- cosbau sifil am fethu â chydymffurfio â'r dyletswyddau gwybodaeth newydd a'r sail ar gyfer pennu symiau'r gosb;
- trosedd pan fydd person yn gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid wrth honni ei fod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau (y bydd gan y VOA ddisgresiwn i ymdrin â'r drosedd drwy gosb sifil yn hytrach nag achos troseddol);
- cyflwyno hysbysiadau cosb gan y VOA a chynnwys yr hysbysiadau hynny;
- cosbau pellach os yw talwr ardrethi yn parhau i fethu â chydymffurfio â'r dyletswyddau gwybodaeth o fewn 30 diwrnod i gael hysbysiad cosb, yn ddarostyngedig i uchafswm.

**192.** Mae'r fframwaith hefyd yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer adolygu ac apelio yn erbyn cosbau a roddir gan y VOA, gan gynnwys:

- y gallu i dalwr ardrethi ofyn am adolygiad o hysbysiad cosb gan “swyddog adolygu” o'r VOA, sy'n swyddog gwahanol i'r un a roddodd yr hysbysiad. Rhaid gofyn am adolygiad o fewn 30 diwrnod i ddyddiad yr hysbysiad cosb a dylai gael ei gynnal o fewn 45 diwrnod. Os na chaiff ei gynnal o fewn 45 diwrnod, bernir bod yr hysbysiad wedi'i gadarnhau;

---

<sup>146</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 96

- yr hawl i dalwr ardrethi apelio i Dribiwnlys Prisio Cymru o fewn 30 diwrnod i'r hysbysiad (neu hysbysiad tybiedig) o ddiwedd yr adolygiad; ac
- estyniad o'r cyfnod ar gyfer talu cosbau tra bod adolygiad neu apêl ar y gweill.

**193.** Dywed y Memorandwm Esboniadol "ei bod yn annhebygol iawn y byddai unigolion yn cael eu herlyn o ganlyniad i'r dyletswyddau newydd", ac y byddai cosbau sifil yn "gymwys o dan amgylchiadau cyfyngedig" ac yn cael eu gorfodi ar sail ddewisol gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio.<sup>147</sup>

**194.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn darparu amcangyfrif cost o £745 y flwyddyn ar gyfer clywed achosion gan y VTW mewn cysylltiad â'r gyfundrefn gydymffurfio. Mae hyn yn seiliedig ar amcangyfrif y VTW o'r gost fesul achos, sef £74.50.<sup>148</sup>

**195.** Wrth ymateb i gwestiynau ynghylch cydymffurfiaeth, awgrymodd y CIOT fod angen mwy o ymgynghori ar yr hyn fyddai'n rhwymedigaeth resymol i'w rhoi ar y trethdalwyr neu'r talwyr ardrethi.<sup>149</sup>

**196.** Nododd y CRA fod y gyfundrefn hon yn newid cyfeiriad llwyr a allai achosi poen i dalwyr ardrethi. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd system effeithlon sy'n cefnogi talwyr ardrethi, a'r problemau posibl a allai godi:

*"we know that there are big inefficiencies in the system, there are big delays in the system here—and if actually, what you're saying is, 'Well, we're going to make you do something you've never done before, we're not going to give you the underpinning technology to do it, it's probably not going to work, the advice and guidance that is available from the valuation office will take three weeks to arrive and they'll never answer the phone'—These are ifs, I'm not making assertions. All of that kind of stuff could get them caught in a kind of Kafkaesque trap."<sup>150</sup>*

**197.** Pwysleisiodd y VOA mai eu blaenoriaeth oedd gwneud pethau'n iawn i'w cwsmeriaid. Nodwyd mai cosbau yw'r dewis olaf i raddau helaeth ac y byddent yn adlewyrchu diffyg cydymffurfiaeth bwriadol a mynych. Ychwanegon nhw:

---

<sup>147</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 9.18

<sup>148</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.128

<sup>149</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 75

<sup>150</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 474

*“And before we issue any penalties, there will be a series of reminders and prompts and warnings, so people will have every opportunity to provide us with the information and we’ll work with them to make that easy for them.”<sup>151</sup>*

**198.** Nododd y VTW mai ychydig iawn o apeliadau a gyflwynwyd iddynt ynghylch hysbysiadau cosb, sy’n dangos bod y VOA yn ymdrin â nhw’n dda.<sup>152</sup>

**199.** Cadarnhaodd y Gweinidog:

*“the plan is for the VOA to produce a policy statement, and that will then set out how it will determine the level of penalty that it will impose. It will draw upon existing HMRC practice, in terms of considering whether an individual has reasonable excuse for non-compliance, or whether any mitigations to sanctions are appropriate.”<sup>153</sup>*

**200.** Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio’n agos gyda’r VOA:

*“to ensure that ratepayers can be reasonably expected to understand and comply with their duties to provide the information before the associated penalty regime is initiated. And that will include the provision of guidance for ratepayers that will be provided by the VOA.”<sup>154</sup>*

## Ein barn ni

---

**201.** Rydym yn pryderu bod y ddyletswydd newydd ar dalwyr ardrethi i ddarparu gwybodaeth yn rhagweithiol pan fydd amgylchiadau'n newid, yn ogystal â gofyniad blynyddol i gyflwyno gwybodaeth i'r VOA, yn rhoi baich anghymesur arnynt. Er ein bod yn cydnabod y byddai gosod terfyn amser o 60 diwrnod ar gyfer darparu gwybodaeth yn gyson â darpariaethau yn Lloegr, rydym yn ansicr ynghylch unrhyw sail resymegol arall dros gynnig yr un amserlen ar gyfer Cymru. Rydym yn pryderu efallai na fydd amserlen o'r fath yn realistig nac yn gyraeddadwy i rai busnesau llai a'r sector lletygarwch. Clywsom bryderon hefyd, er bod gofynion newydd yn cael eu gosod ar dalwyr ardrethi i ddarparu gwybodaeth o fewn 60 diwrnod, nad oes unrhyw derfynau amser cyfatebol wedi'u gosod ar y VOA. Yng ngoleuni'r dystiolaeth a glywyd, credwn y dylai Llywodraeth Cymru

---

<sup>151</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 191

<sup>152</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 196

<sup>153</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 131

<sup>154</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 133

---

wneud rhagor o waith i asesu addasrwydd yr amserlen a gynigir, gan gynnwys adolygu'r profiad yn Lloegr yn dilyn ei gweithredu.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud rhagor o waith i asesu addasrwydd yr amserlen arfaethedig ar gyfer darparu gwybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 12, gan gynnwys, lle bo'n briodol, adolygu'r profiad yn Lloegr.

**202.** Er y byddem yn disgwyl i'r rhan fwyaf o fusnesau feddu ar y dechnoleg i allu cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol yn electronig, rydym yn cydnabod y gallai fod rhai achosion lle na fydd hyn yn bosibl. Rydym felly'n croesawu'r sicrwydd y bydd ffordd arall o ddarparu'r wybodaeth ar gael hefyd.

**203.** Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn parhau â'i gwaith gyda'r VOA i ddatblygu canllawiau clir i dalwyr ardrethi, ac i fonitro lefelau'r cosbau a osodir ac apeliadau cysylltiedig. Bydd hwn yn faes pwysig i gadw llygad arno.

**204.** O ystyried ei bod yn ymddangos bod angen gwneud gwaith pellach sylweddol cyn i'r dyletswyddau newydd ar dalwyr ardrethi ddod i rym, credwn y dylai'r trefniadau hyn fod yn destun craffu pellach gan y Senedd.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i'r Bil i wneud cychwyn adran 12 yn destun cymeradwyaeth gan y Senedd.

## **Atal osgoi trethi**

### **Trefniadau artiffisial i osgoi ardrethi annomestig**

---

**205.** Mae adran 13 yn ceisio lleihau cyfleoedd i osgoi ardrethi annomestig. Mae'n cyflwyno fframwaith newydd i atal osgoi ardrethi i ganiatáu i Weinidogion Cymru bennu gweithgarwch artiffisial i osgoi ardrethi mewn rheoliadau. Mae'r darpariaethau hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu cosbau ariannol mewn cysylltiad â threfniadau i atal osgoi ardrethi.

**206.** Effaith y darpariaethau hyn, pan fydd ymddygiad osgoi penodedig yn parhau ar ôl i reoliadau gael eu gwneud, fyddai ei gwneud yn ofynnol i'r person dalu'r diffyg mewn atebolrwydd o ganlyniad i'r ymddygiad hwnnw i'r awdurdod bilio perthnasol (mewn perthynas â rhestrau ardrethu lleol) neu Weinidogion Cymru (mewn perthynas â'r rhestr ardrethu ganolog).

**207.** Mae'r fframwaith hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n caniatáu i dalwr ardrethi, ar ôl derbyn hysbysiad o atebolrwydd am ymddygiad osgoi, ofyn am adolygiad o'r hysbysiad hwnnw, a'r hawl i apelio yn erbyn canlyniad yr adolygiad hwnnw i'r VTW.

**208.** Cefnogir y darpariaethau yn erbyn osgoi ardrethi gan bŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer rhoi cosb ariannol pan fo person yn methu â chydymffurfio â hysbysiad o ymddygiad osgoi a gadarnhawyd. Nodir n y Bil mai uchafswm y gosb y gellir ei phennu mewn rheoliad yw £500 ynghyd â 3 y cant o werth ardrethol yr hereditament ar ddyddiad yr hysbysiad. Fodd bynnag, mae'r Bil hefyd yn cynnig rhagor o bwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i allu gwneud darpariaeth ychwanegol mewn perthynas â chasglu a gorfodi cosbau, a diwygio'r cosbau uchaf y gellir eu pennu.

**209.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y darpariaethau yn cynorthwyo Gweinidogion Cymru i wrthweithio trefniadau osgoi artiffisial sy'n esblygu'n barhaus. Ar hyn o bryd, mae darpariaethau i fynd i'r afael â dulliau osgoi sy'n dod i'r amlwg yn aml yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol, "sy'n cyfyngu ar y gallu i wrthweithio ymddygiadau osgoi mewn modd amserol".<sup>155</sup>

**210.** Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn nodi, ar hyn o bryd, mai "dim ond er mwyn helpu i nodi atebolrwydd, drwy ei gwneud yn ofynnol i bersonau ddarparu gwybodaeth o dan amgylchiadau penodol, y gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau". Fodd bynnag, nid yw hyn yn mynd i'r afael ag osgoi ardrethi annomestig ei hun, ac mae'r Datganiad yn awgrymu y bydd y pwerau newydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i ddulliau osgoi penodol. Yn bwysig, bydd y pwerau newydd yn:

*"darparu ar gyfer cymryd camau gorfodi ar ffurf cosbau sifil, lle y bo'n briodol, er mwyn sicrhau bod dull gwirioneddol o atal ymddygiadau osgoi parhaus penodol. Bwriedir i'r gyfundrefn orfodi sicrhau y caiff unigolyn y nodir ei fod wedi bod yn defnyddio ymddygiad osgoi penodol, gyfle i roi'r gorau i'r ymddygiad hwnnw a thalu'r swm sy'n ddyledus ers i'r rheoliadau ddod i rym. Os bydd yn methu â thalu swm sy'n ddyledus, dim ond bryd hynny y bydd yn agored i gosb sifil hefyd."*<sup>156</sup>

**211.** Mewn ymgynghoriad blaenorol ar osgoi ardrethi annomestig, gofynnodd Llywodraeth Cymru gwestiynau yn ymwneud â threfniadau cosbau sifil am osgoi. Roedd yr ymatebion yn gymysg, ond gwnaeth rhai fynegi'r angen am hawl i apelio

---

<sup>155</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.133

<sup>156</sup> Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, Tachwedd 2023, tudalen 8

gan asesydd annibynnol mewn achosion o'r fath, ac y dylai graddfeydd adlewyrchu'r gwerth ardrethol a difrifoldeb yr osgoi.<sup>157</sup>

**212.** Nid yw'r fframwaith yn nodi ymddygiadau penodol sy'n gyfystyr â threfniadau osgoi. Byddai hwn yn fater ar gyfer rheoliadau yn y dyfodol. O'r herwydd, nid oes unrhyw gostau na buddion wedi'u nodi ar hyn o bryd gan y byddai hyn yn dibynnu ar natur benodol y rheoliadau.

**213.** Serch hynny, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod awdurdodau lleol wedi amcangyfrif yn 2017 fod graddfa gweithgarwch osgoi talu ardrethi annomestig yn golygu colled o hyd at £20 miliwn o refeniw bob blwyddyn, sy'n 1-2 y cant o refeniw ardrethi annomestig blynyddol.<sup>158</sup>

**214.** Mynegodd yr IRRV, y CRA a'r FSB gefnogaeth i'r ddarpariaeth, ond ychwanegodd yr FSB:

*"it should be noted that there will always be areas of business that are legitimately grey areas, or that businesses straddle across different sectors. In such cases legitimate diversification should be incentivised. It is important that any such provisions for a few using avoidance arrangements [do] not impact adversely on legitimate business expansion and diversification."*<sup>159</sup>

**215.** Nododd y CIOT:

*"Clarity of scope is important in relation to the application of any general anti-avoidance rule. The development of different statutory tests for counteracting avoidance in the devolved administrations and the UK in relation to direct and indirect taxes and business rates add complexity to the tax system and potential uncertainty for investors and business. The need for clear and consistent guidance particularly on the scope and purpose of reliefs across all local authorities in Wales is essential to help provide certainty."*<sup>160</sup>

**216.** Mynegodd y CIOT bryder hefyd ynghylch y defnydd o is-ddeddfwriaeth ar gyfer gosod cosbau ariannol:

---

<sup>157</sup> Llywodraeth Cymru, Mynd i'r Afael ag Achosion o Osgoi Ardrethi Annomestig yng Nghymru. Ymgynghoriad - crynodeb o ymatebion, Hydref 2018

<sup>158</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.141

<sup>159</sup> FSB, tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>160</sup> CIOT, tystiolaeth ysgrifenedig

*“the accompanying civil penalty regime should also be fully set out in primary legislation including collection and enforcement. It is essential that proper scrutiny ensures financial penalties are proportionate and safeguards for taxpayers in relation to penalties are appropriate.”<sup>161</sup>*

**217.** Esboniodd y Gweinidog:

*“The reason we’re taking this approach is because techniques to avoid paying tax are constantly evolving. So, you could put a specific approach into primary legislation and then there will be ways that are sought then to get around that.”<sup>162</sup>*

**218.** Cydnabu’r Gweinidog y gallai darpariaethau ynghylch yr hawl i apelio a galluogi cosbau sifil gael effaith ar y system gyfiawnder, ond nododd y byddai mwy o fanylion yn dilyn yn y rheoliadau a ddaw yn ddiweddarach:

*“the intention would be for the impacts on the justice system to be fully considered when developing the regulations that would follow. So, as we would normally when developing regulations, we’d be considering the impact then, and also engaging with the Ministry of Justice to develop that.”<sup>163</sup>*

## Ein barn ni

---

**219.** Rydym yn pryderu ynghylch y diffyg eglurder yn ymwneud â’r darpariaethau yn yr adran hon. Rydym yn cydnabod sail resymegol y Gweinidog dros ddefnyddio is-ddeddfwriaeth er mwyn ymateb yn gyflym o ystyried bod technegau i osgoi talu treth yn esblygu’n gyson. Fodd bynnag, credwn, o ystyried arwyddocâd y maes hwn a’r goblygiadau posibl i dalwyr ardrethi o ganlyniad i orfodi a chosbau ariannol, y dylai rheoliadau o’r fath fod yn ddarostyngedig i uwch-weithdrefnau’r Senedd i ganiatáu craffu digonol ar y polisiau wrth wraidd y penderfyniadau sy’n cael eu gwneud.

**220.** Felly, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, rydym yn argymhell y dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 14 o’r Bil i ddarparu ar gyfer isafswm cyfnod o 60 diwrnod, ac eithrio cyfnodau o ddiddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar reoliadau drafft a gynigir o dan y pwerau yn adran 13, wrth bennu trefniadau osgoi artiffisial.

---

<sup>161</sup> CIOT, tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>162</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 93

<sup>163</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 94

---



**Argymhelliad 14.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 14 o'r Bil i ddarparu ar gyfer isafswm cyfnod o 60 diwrnod, ac eithrio cyfnodau o ddiddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar reoliadau drafft a gynigir o dan y pwerau yn adran 13, wrth bennu trefniadau osgoi artiffisial.



## 4. Rhan 2 – Y dreth gyngor

Mae Rhan 2 yn ceisio diwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (“Deddf 1992”). Mae'n gwneud darpariaethau ynghylch newidiadau i fandiau prasio, newidiadau i'r dreth gyngor sy'n daladwy, cyfathrebiadau electronig a phrisio anheddau.

### Newidiadau i fandiau prasio

#### Cyfrifo treth ar gyfer gwahanol fandiau prasio

---

**221.** Mae Deddf 1992 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyfrifo atebolrwydd y dreth gyngor. Yn unol ag adran 5 o'r Ddeddf, neilltuir cyfran o'r dreth gyngor i bob eiddo preswyl yng Nghymru drwy gyfeirio at y band prasio ar gyfer yr eiddo. Mae'r bandiau prasio yn amrywio o A – I ac yn seiliedig ar brisiad o'r eiddo fel y pennir gan Asiantaeth y Swyddfa Brasio.

**222.** Mae Deddf 1992 yn datgan bod y swm sy'n daladwy ar gyfer pob band y dreth gyngor yn cael ei gyfrifo drwy gymhwyso fformiwla (yn adrannau 36 a 47 o Ddeddf 1992) gan gynnwys y gyfran berthnasol ar gyfer y band hwnnw, fel y'i rhennir gan "D". D felly yw'r 'cyfeirbwynt' ar gyfer pennu cyfran y dreth gyngor mewn perthynas â phob band arall.

**223.** Mae adran 17 o'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio'r cyfeirbwynt yn y fformiwla'r dreth gyngor y cyfeirir atynt uchod. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi y gellid defnyddio'r pwerau i newid labeli strwythurau bandio'r dreth gyngor yn y dyfodol ac mae'n nodi mai nod y polisi yw:

*“sichrau bod system y dreth gyngor yn decach ac yn fwy graddoledig gyda'r baich treth wedi'i ddosbarthu'n ehangach yng nghyd-destun cylchoedd ailbrasio pum mlynedd.”*

**224.** Dywed hefyd:

*“yn y dyfodol byddai'n fuddiol pe gellid pennu'n cyfeirbwynt ar gyfer 100% ar rywbeth gwahanol i fand D os bydd angen*

*a/neu newid y disgrifiadau o fandiau (er enghraifft o'r llythrennau A, B, C i'r rhifau 1,2,3 ac ati).<sup>164</sup>*

**225.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi ymhellach y byddai'r darpariaethau yn sicrhau bod y "system yn parhau i fod yn glir ac yn hawdd ei deall yn y dyfodol".

**226.** Nododd yr IFS mewn perthynas â rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ddefnyddio confensiwn enwi gwahanol:

*"the flexibility to use a different naming convention may make it easier to communicate more radical reforms of the council tax system."*

**227.** Fodd bynnag, nododd yr IFS hefyd nad y disgrifiadau a ddefnyddir sy'n bwysig:

*"Ultimately, more important than the reference band and naming conventions is the design of the council tax rate structure. From a policy perspective, systems with many more bands or based on continuous (point) values rather than bands would be better than the current system."<sup>165</sup>*

**228.** Cadarnhaodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru fod rhywfaint o'r hyn y maent yn ei wneud yn adran 17 yn ailddatgan y pwerau sydd yno eisoes, ond nododd fod Llywodraeth Cymru yn ceisio trwsio anghysondeb, gan ddweud:

*"there's almost a surprising inconsistency at the moment that although you have the power to change the number and the description of those bands, we don't actually have the power to make changes later on in the Local Government Finance Act 1992, to sections 36 and 47. So, those are really important sections for the calculation of council tax, and that's the bit we're making sure that, when we make a change to the number or the description of the band in section 5, we can follow through so that the system actually works coherently, because, as the Minister has explained, if you changed the descriptions to 1, 2, 3, 4, 5, you need then the calculation of council tax to refer to 5 instead of D, so it really is just a technical change."<sup>166</sup>*

---

<sup>164</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.79

<sup>165</sup> IFS, tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>166</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 149

---

## Ein barn ni

---

**229.** Yng nghyd-destun diwygio'r dreth gyngor, mae'r darpariaethau yn y Bil sy'n rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r disgrifiadau a neilltuir i fandiau'r dreth gyngor, yn ogystal â gosod y cyfeirbwynt ar 100% ar rywbeth heblaw Band D, yn ymddangos yn gymesur. Pe bai bandiau ychwanegol y dreth gyngor yn cael eu creu yn y dyfodol, mae'n bwysig sicrhau eglurder o fewn y system honno, ac mae'n ymddangos y byddai'r darpariaethau hyn yn galluogi hynny i raddau. Mae ymgynghoriad Cam 2 ar Dreth Gyngor Decach a lansiwyd ychydig cyn cyflwyno'r Bil, ac a ddaeth i ben cyn diwedd Cyfnod 1, yn darparu dulliau posibl o ddiwygio'r dreth gyngor y mae Llywodraeth Cymru yn credu eu bod yn "realistig bosibl". Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad yn rhoi cipolwg ar sut y gellid defnyddio'r pwerau yn y Bil, megis adran 17, yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r cynigion hyn y tu allan i'n gwaith craffu ar y Bil.

## Newidiadau i'r dreth gyngor sy'n daladwy

### Disgowntiau

---

**230.** Mae adran 18 o'r Bil yn gwneud cyfres o ddarpariaethau mewn perthynas ag esemptiadau'r dreth gyngor rhag atebolrwydd, diystiriadau a disgowntiau. Mae diwygiadau a gynigir gan yr adran hon yn cynnwys datgymhwyso darpariaethau yn Neddf 1992:

- ynghylch yr unigolion sydd wedi'u hesemptio rhag atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor;
- i ddisgowntiau fod yn gymwys o dan rai amgylchiadau;
- ynghylch unigolion a ddiystyriar at ddibenion pennu a yw disgownt yn gymwys; ac
- i awdurdodau bilio leihau neu ddileu disgowntiau o dan rai amgylchiadau

**231.** Ym mhob achos, mae adran 18 yn cynnwys darpariaethau a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth yn y meysydd hyn drwy reoliadau.

**232.** Ar hyn o bryd, mae'r ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer dau ddisgownt statudol - cyfeirir at un yn gyffredin fel 'disgownt un oedolyn' ac mae'n gymwys lle mai dim ond un oedolyn sy'n byw yn yr eiddo sy'n atebol i dalu'r dreth gyngor - naill ai am ei fod yn byw ar ei ben ei hun neu am fod y preswylwyr eraill yn cael eu

diystyru at ddibenion cyfrifo'r dreth gyngor. Mae'r ail ddisgownt yn ymwneud ag eiddo gwag ac eiddo lle mae'r oedolion i gyd yn cael eu diystyru.

**233.** O ran eiddo gwag, mae awdurdodau lleol wedi defnyddio eu disgrisiwn dros y blynyddoedd diwethaf i ddileu disgowntiau a/neu godi premiwm treth gyngor.

**234.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod "adolygiad o'r amrywiaeth o ddisgowntiau, diystyriadau, esemptiadau a phremiymau yn mynd rhagddo", gyda'r nod o foderneiddio'r system, ac mai'r bwriad yw y bydd system ddiwygiedig o ddisgowntiau a diystyriadau ar waith o flwyddyn ariannol 2026-27.<sup>167</sup>

**235.** Fel y nodwyd yn flaenorol, lansiodd Llywodraeth Cymru ei hymgyngoriad 'Cam 2' – Treth Gyngor Decach ym mis Tachwedd 2023.<sup>168</sup> Mewn cysylltiad â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi sut y gallai is-ddeddfwriaeth geisio diwygio'r system yn y dyfodol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y gallai rheoliadau ar gyfer cymeradwyaeth y Senedd yn y dyfodol gynnwys cynigion ar gyfer:

- gosod y swm neu'r cyfrifiad a'r amodau ar gyfer y disgowntiau statudol;
- ychwanegu categorïau newydd o ddisgownt a chyfraddau sy'n wahanol i'r canrannau presennol, sef 25% neu 50%;
- dileu'r cysylltiad rhwng y disgownt un oedolyn a'r disgownt eiddo gwag, fel na fydd yn rhaid i'r disgownt eiddo gwag fod ddwywaith canran y disgownt un oedolyn. Byddai hyn, er enghraifft, yn ei gwneud yn bosibl i gyfraddau disgownt gwahanol gael eu pennu ar gyfer sefyllfaoedd gwahanol;
- rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ganiatáu i awdurdodau lleol ddatgymhwyso neu leihau disgowntiau mewn rhai amgylchiadau.

**236.** Er yr adolygiad parhaus, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal y disgownt un oedolyn presennol ar 25%.

**237.** Awgrymodd yr IFS fod y gostyngiad un oedolyn yn cyfrannu at danfeddiannaeth a gorlenwi'r stoc dai:

*"I think our concern with the single-person discount, as it's currently structured, is that because it's just 25 per cent of the bill, that—. That's the only feature of council tax at the moment that really distorts the housing market, because it means it's a*

---

<sup>167</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.79

<sup>168</sup> Llywodraeth Cymru, [Treth Gyngor Decach: cam 2](#)

*bigger discount if you occupy more valuable properties, and therefore it gives an incentive for one-adult households to live in bigger, more expensive properties, and multi-adult households to live in less valuable properties than they otherwise would.”<sup>169</sup>*

**238.** Nododd un o swyddogion Llywodraeth Cymru y byddai darpariaethau'r Bil yn:

*“allow more and different types of discounts to be developed more readily than they can be at the moment. So, at present, we're constrained to either a 25 per cent or 50 per cent discount. It might be that it would be appropriate to create a new discount at a different kind of level or for different levels for different circumstances.”<sup>170</sup>*

**239.** Mewn ymateb i'r cwestiwn ynghylch pa mor hir y bydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal y disgownt un oedolyn yn para, ymatebodd y Gweinidog:

*“this Welsh Government has no intention to change or remove the single-person discount. So, it will be as set out in the legislation until, and if, a different Government changed that.”<sup>171</sup>*

**240.** O ran darpariaethau sy'n ymwneud â disgowntiau sy'n cael eu gwneud drwy reoliadau, dywedodd y Gweinidog wrthym mai gallu bod yn ymatebol sy'n bwysig. Ychwanegodd:

*“we've given some examples today about how we needed to respond rapidly in the case of the pandemic, for example, to support businesses, in relation to supporting local authorities or households through the council tax reduction scheme, to welcome people from Ukraine to their households and so on. So, it's really about being able to be agile, because we know that when things are set out in primary legislation, it's very difficult then to amend them.”<sup>172</sup>*

---

<sup>169</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 102

<sup>170</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 184

<sup>171</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 190

<sup>172</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 192

---

## **Symiau gostyngedig**

---

**241.** Mae adran 19 yn ymwneud â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac yn ceisio diwygio dyluniad a gweinyddiaeth y cynllun. Cyflwynwyd Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 2013-14 yng Nghymru yn lle budd-dal y dreth cyngor. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn rhoi £244 miliwn y flwyddyn i awdurdodau lleol i ddarparu cymorth i gartrefi cymwys. Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer y cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol fabwysiadu ei gynllun ei hun yn flynyddol, yn seiliedig ar ofynion rhagnodedig mewn rheoliadau. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei Datganiad o Fwriad y Polisi nad oes modd gwneud newidiadau i'r cynllun yn ystod y flwyddyn, a dim ond disgresiwn cyfyngedig sydd gan awdurdodau lleol i amrywio eu cynlluniau. O'r herwydd, mae Llywodraeth Cymru yn nodi "yn ymarferol, mae hyn yn arwain at gynlluniau sydd fwy neu lai yr un peth ledled Cymru".<sup>173</sup>

**242.** Byddai'r darpariaethau yn y Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud un Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cenedlaethol drwy reoliadau, yn lle cynlluniau lleol yng Nghymru, ac mae'n cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru roi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch sut y dylid cymhwyso'r cynllun cenedlaethol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai hefyd yn galluogi newidiadau yn ystod y flwyddyn, gan ddarparu lle i addasu'r cynllun "er mwyn ymateb i unrhyw anghenion annisgwyl sy'n deillio o newidiadau yn yr economi neu gymdeithas". Mae enghreifftiau o fesurau dewisol yn cynnwys ymateb i'r pandemig a chefnogi pobl o Wcráin ac Affganistan.<sup>174</sup> Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod darpariaethau yn y Bil hwn yn ceisio "lleihau cymhlethdod gweithredu a hwyluso'r broses weinyddu" drwy ddarparu un cynllun cenedlaethol.<sup>175</sup>

**243.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, hyd yn oed o ddiwygio system y dreth gyngor i'w gwneud yn fwy blaengar, fod Llywodraeth Cymru "yn disgwyl y bydd angen parhau i ddarparu cynllun er mwyn helpu aelwydydd incwm isel i dalu eu biliau treth gyngor."<sup>176</sup>

**244.** Y bwriad yw y bydd y cynllun cenedlaethol cyntaf yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026, a disgwylir iddo fod yn niwtral o ran cost gan na fyddai'r darpariaethau'n newid y gofyniad ar awdurdodau lleol i fod â chynllun.

---

<sup>173</sup> Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, Tachwedd 2023, tudalen 14

<sup>174</sup> Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, Tachwedd 2023, tudalen 14

<sup>175</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.89

<sup>176</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.88

---

**245.** Roedd CLILC yn gefnogol i'r newid, gan ddweud bod awdurdodau lleol wedi gofyn amdano. Wrth ymhelaethu ar y manteision, dywedodd CLILC wrthym:

*“because the existing regulations are bound to a specific financial year, they can't be reactive. You can't refer to any change. The current process is that the regulations are laid in December, approved in the January, a council has to adopt their scheme by 31 January of that year ready for the April implementation. No change can take place once that has happened. Conferring the duty on Welsh Ministers will allow them to respond to crises and national emergencies.”<sup>177</sup>*

**246.** Nododd yr IRRV gefnogaeth hefyd i symud i un cynllun cenedlaethol:

*“This would avoid the so-called ‘postcode lottery’ system of some taxpayers receiving more relief than others based solely off their location, rather than their means. It would also remove the cumbersome burden of Local Authorities having to adopt their own discretions every year; a national scheme would address and standardize these interpretations.”<sup>178</sup>*

**247.** Roedd Sefydliad Bevan yn croesawu'r darpariaethau ynghylch hyblygrwydd i ddylunio cynlluniau yn ymwneud â gostyngiadau, disgowntiau a diystyriadau'r dreth gyngor sy'n diwallu anghenion pobl Cymru yn well, ond roeddent yn pryderu.

*“given that the reviews could result in very substantial changes to both schemes which would affect a large number of households in Wales, we are concerned that the changes would be via subordinate legislation. We consider that the principles of any new schemes should be debated by the Senedd, with subordinate legislation addressing matters of detail such as thresholds.”<sup>179</sup>*

**248.** Holwyd y Gweinidog am amserlenni ar gyfer dod ag unrhyw ddisgowntiau, diystyriadau ac esemptiadau newydd i rym. Dywedodd wrthym:

*“We've currently got a working group that is making its way through all 53 of those discounts, disregards, exemptions and premiums, exploring if they are fit for purpose. They'll also be, of*

---

<sup>177</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 340

<sup>178</sup> IRRV, tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>179</sup> Sefydliad Bevan, tystiolaeth ysgrifenedig



*course, considering if there are others that are relevant that should be introduced as well. I think that, inevitably, we'll end up taking a phased approach to delivering the outcomes of the working group's review and considering those. It may be feasible to introduce some outcomes in 2026-27, and some later, but I think there are some things that we can do in the more immediate term—improving and addressing the low take-up of the council tax reduction scheme, for example.”<sup>180</sup>*

## **Ein barn ni**

---

**249.** Mae cynlluniau gostyngiadau a disgowntiau'r dreth gyngor yn gwneud cyfraniad allweddol at gefnogi aelwydydd. Er bod mwy o hyblygrwydd i ddarparu cymorth i'w groesawu, rydym yn cydnabod y gallai newid mewn polisi gael canlyniadau sylweddol ac anfwriadol i bobl, yn enwedig y rhai sydd mewn trafferthion ariannol. Mae'n allweddol felly bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori'n llawn ar unrhyw bolisi newydd sy'n gysylltiedig â disgowntiau. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gynnwys gofyniad penodol i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad cyn gwneud rheoliadau o dan adran 18, ac eithrio wrth newid cyfraddau disgownt.

**Argymhelliad 15.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gynnwys gofyniad penodol i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad cyn gwneud rheoliadau o dan adran 18, ac eithrio wrth newid cyfraddau disgownt.

**250.** O ran y disgownt un oedolyn, nodwn y safbwyntiau cymysg ymhlith ein tystion am ei fformat a'i fodolaeth. Deallwn fod y gostyngiad un oedolyn yn achubiaeth i lawer o aelwydydd sy'n wynebu pwysau ariannol ac y gallai ei ddileu gael canlyniadau sylweddol i lawer. Rydym felly'n croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gadw'r gostyngiad ar 25 y cant. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gallai llywodraeth yn y dyfodol (mor gynnar â 2026) ddewis cymryd agwedd wahanol. O ystyried goblygiadau sylweddol newid y cynllun gostyngiad un oedolyn i aelwydydd ac awdurdodau lleol, credwn fod rhaid i unrhyw reoliadau sy'n cynnig newid fod yn destun gwaith craffu trylwyr gan y Senedd.

**251.** Credwn y dylai'r darpariaethau yn adran 18 fod yn ddarostyngedig i uwchweithdrefn, er mwyn sicrhau y bydd y Senedd yn cael isafswm cyfnod o amser i ystyried y cynigion unwaith y cânt eu gosod, ac y bydd yn gallu gwneud penderfyniad mwy gwybodus wedyn ynghylch a ddylid cymeradwyo'r cynigion. Rydym yn argymhell felly y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu ar

---

<sup>180</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 7 Chwefror 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 140



gyfer isafswm cyfnod o 60 diwrnod, ac eithrio cyfnodau o ddiddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar y rheoliadau drafft a gynigir o dan y pwerau yn adran 18, ac eithrio wrth newid cyfraddau disgownt.

**Argymhelliad 16.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu ar gyfer isafswm cyfnod o 60 diwrnod, ac eithrio cyfnodau o ddiddymu neu doriad o fwy na 4 diwrnod, i ganiatáu i bwyllgorau perthnasol graffu ar reoliadau drafft a gynigir o dan y pwerau yn adran 18, ac eithrio wrth newid cyfraddau disgownt.

## **Symiau gostyngedig**

**252.** Nodwn y gefnogaeth gan CLILC i ddarpariaethau'r Bil i sefydlu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cenedlaethol i Gymru. O ystyried pwysigrwydd y cynllun o ran darparu cymorth ariannol i aelwydydd incwm isel, mae codi ymwybyddiaeth yn hollbwysig. Rydym wedi codi pryder yn gyson yn ein hadroddiadau ar gyllidebau drafft Llywodraeth Cymru nad yw pawb sy'n gymwys i gael y cymorth hwn gyda'u treth gyngor yn ei hawlio mewn gwirionedd. Nodwn mai nod sefydlu cynllun cenedlaethol yw sicrhau cysondeb ledled Cymru, a chroesawn y bwriad hwn. Gan nad yw'r nifer sy'n manteisio ar ostyngiad yn y dreth gyngor wedi bod mor uchel ag y dylai fod, rydym yn gobeithio y bydd dull cyson yn helpu i godi ymwybyddiaeth a sicrhau bod mwy o bobl gymwys yn ei hawlio.

**253.** Bydd y gwaith y mae gweithgor Llywodraeth Cymru yn ei wneud i edrych ar y disgowntiau, y diystiriadau a'r esemptiadau yn amlwg yn gwneud cyfraniad allweddol at ddatblygu polisiau newydd, felly byddem yn croesawu diweddariad ar gynnydd y grŵp.

## **Cyfathrebiadau electronig**

### **Cyhoeddi hysbysiadau**

---

**254.** Mae adran 20 yn disodli'r gofynion ar awdurdodau lleol i gyhoeddi hysbysiadau sy'n ymwneud â'r dreth gyngor mewn papurau newydd lleol gyda dyletswydd newydd i gyhoeddi'r hysbysiadau hynny ar-lein, ac i roi trefniadau amgen addas ar waith i sicrhau bod gwybodaeth o'r fath yn hygyrch i ddinasyddion sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio cyfleusterau ar-lein.

**255.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried dulliau amgen megis "ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi manylion ar-lein ac mewn papurau newydd", ond:

*"nid yw'r system bresennol o gyhoeddi manylion y dreth gyngor mewn papurau newydd yn rhoi unrhyw adborth i gynghorau ac*

*mae'n anwybyddu'r ffaith bod y gynulleidfa yn symud i ffwrdd oddi wrth bapurau newydd print i dirwedd cyfryngau digidol amrywiol.*<sup>181</sup>

**256.** Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn y Memorandwm Esboniadol fodd bynnag y gallai dileu yn llawn y gofyniad i awdurdodau lleol gyhoeddi manylion y dreth gyngor mewn papurau newydd lleol "ei gwneud yn fwy anodd i grwpiau oedran hŷn neu'r rhai heb fynediad i'r rhyngwrwd gael gafael ar wybodaeth".<sup>182</sup>

**257.** Serch hynny, yn ôl y Memorandwm Esboniadol, gan fod awdurdodau lleol eisoes yn darparu gwybodaeth drwy amrywiaeth o gyfryngau, ystyriwyd y gallai'r costau sy'n gysylltiedig â hysbysebion mewn papurau newydd:

*"gael eu defnyddio orau ar gyfer amrywiaeth o ddeunyddiau cyhoeddi eraill, megis gyda biliau, yn adeiladau awdurdodau lleol neu mewn llyfrgelloedd, a allai helpu i leihau unrhyw broblemau o ran hygyrchedd."*<sup>183</sup>

**258.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn amcangyfrif y byddai cynnal hysbysebion papurau newydd cenedlaethol yn costio £330,000 i awdurdodau lleol dros gyfnod o ddeng mlynedd. Mae'n amcangyfrif y byddai cynnal hysbysebion mewn papurau newydd rhanbarthol yn costio £55,000 arall i awdurdodau lleol dros yr un cyfnod. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi costau ychwanegol o hyd at £15,000 y flwyddyn i awdurdodau lleol o gyhoeddi hysbysiadau ar breimiau'r dreth gyngor.<sup>184</sup>

**259.** Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd 39 o'r 56 o ymatebion i'n hymgyngoriad ar y Bil yn ymwneud yn benodol â'r darpariaethau yn adran 20. Roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion yn gymysg, gyda 28 yn gwrthwynebu ac 11 yn mynegi cefnogaeth i'r newidiadau arfaethedig. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

*"As well as impacting the revenue stream of those newspapers, this is another step along the road to exclusion for those who do not have, cannot afford or lack the skills to use the internet."*

**Unigolyn**

*"Public Notices remain a vital source of that information for all our readers. The details are studied in minutia – parsed by each sentence,*

---

<sup>181</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.222

<sup>182</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.222

<sup>183</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.223

<sup>184</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 8.229

*either in English or Welsh – and are discussed and mentioned in shops, meetings, halls and churches – where ever those taxpayers and residents, voters and volunteers meet.*

*While our digital presence is strong, our print editions reach a demographic – the elderly, the economically vulnerable, the isolated – that digital products do not.”*

**- Mick O'Reilly, Golygydd Rhanbarthol Gorllewin Cymru, Cambrian News a'r Tenby Observer**

*“In this present age relying on individuals purchasing papers to read these notice is no longer in line with media communication.”*

**- Tony Lock**

**260.** Nododd CLILC fod cyfryngau print mewn sefyllfa wahanol yn 2024 nag yr oeddent ym 1993, ond gwnaethant ddweud wrthym fod awdurdodau lleol yn gwybod sut i gyrraedd eu trigolion, a gwnaethant bwysleisio mai awdurdod lleol ddylai benderfynu sut i gyhoeddi hysbysiadau.<sup>185</sup> Gwnaethant nodi hefyd fod yr wybodaeth yn cael ei darparu gyda'r bil y dreth gyngor ei hun.<sup>186</sup>

**261.** Nododd Newsquest eu barn y byddai adran 20 yn cael canlyniadau trychinebus anfwriadol i'r sector papurau newydd lleol yng Nghymru, ac awgrymodd Reach plc:

*“if you remove public notices, or the requirement to put public notices in print titles, you are removing that information from a certain part of the public; there are really no two ways about that. You're also removing revenue from publishers. That means publishers are able to do less journalism, and that means the public is even less informed, so it's almost a circular effect, really.”<sup>187</sup>*

**262.** Fodd bynnag, dadleuodd Wrexham.com fod referniw o gyhoeddi hysbysiadau yn gymhorthdal a:

*“this is about communication, and, back in the day, yes, circulations were huge and points of reference for many, many*

<sup>185</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 346-347

<sup>186</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 25 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 352

<sup>187</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 31 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 29

*people, but the landscape has changed, and it's a bad law, it's an out-of-date law.*"<sup>188</sup>

**263.** Dywedodd cynrychiolydd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wrthym fod dileu'r gofyniad i gyhoeddi mewn papurau newydd yn dystiolaeth o:

*"this creep towards digitalisation and the increasing exclusion of older people."*<sup>189</sup>

**264.** Ategwyd y farn hon gan Newsquest, a ddywedodd fod mynd i'r afael ag allgáu digidol yn gofyn am osod hysbysiadau cyhoeddus mewn print ac ar-lein, gan sicrhau ein bod yn gwasanaethu cymunedau gyda'r gorau o ddau fyd.<sup>190</sup>

**265.** Cwestiynodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru beth yw ystyr trefniant amgen yn ymarferol:

*"We think the wording of the alternative is rather grey and ambiguous. [...] Who's to decide what's suitable and what isn't? There's just no clarity about what that means."*<sup>191</sup>

**266.** Roedd Reach plc yn cytuno â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Gwnaethant awgrymu bod y ddarpariaeth o amgylch trefniadau amgen yn amwys iawn, a gwnaethant dynnu sylw at yr angen i ofyn cwestiynau ynglŷn â beth fyddai cost pethau fel gosod hysbysiadau mewn llyfrgelloedd, neu anfon llythyrau at bobl, os nad ydynt yn eu gweld mewn papurau newydd.<sup>192</sup>

**267.** Er bod Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn cydnabod bod gwelliannau y gellid eu gwneud o ran gwneud pethau'n fwy hygyrch yn y trefniadau presennol, er enghraifft, print mwy, daethant i'r casgliad canlynol:

*"the current requirement may not be perfect, but the concern is about taking something away without putting in place an effective patchwork of different arrangements to reach different groups of older people [...] it's this principle of 'Okay, we will move things online, but we haven't adequately thought about what offline access looks like'."*<sup>193</sup>

---

<sup>188</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 31 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 20

<sup>189</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 31 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 6

<sup>190</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 31 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 13

<sup>191</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 31 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 8

<sup>192</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 31 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraff 30

<sup>193</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 31 Ionawr 2024, Cofnod y Trafodion, paragraffau 89-91

**268.** Dywedodd y Gweinidog wrthym:

*“Things have changed a lot, I think, in terms of people’s reliance on newspapers as their sole source of news and information. So, I think moving towards something more electronic and up to date is a reasonable thing to do. That said, we know there are some people who don’t access the internet, and so on, so we’ll make provision in the legislation that authorities should make the information available to people in other ways as well.”<sup>194</sup>*

## Ein barn ni

---

**269.** Er ein bod yn cydnabod na fyddai adran 20 yn atal awdurdodau lleol rhag parhau i gyhoeddi hysbysiadau’r dreth gyngor mewn papurau newydd, rydym yn ymwybodol, o ystyried y pwysau ariannol presennol, y gallai awdurdodau lleol ddewis peidio â gwneud hynny er mwyn gwneud arbedion. Nodwn felly’r pryderon ynghylch y posibilrwydd o golli refeniw i bapurau newydd, gan gydnabod nad cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw ariannu cyfryngau print lleol neu genedlaethol. Yn ogystal, rydym yn cydnabod bod pobl yn cael eu gwybodaeth mewn fformatau gwahanol, felly efallai nad cyhoeddi hysbysiadau mewn papurau newydd yw’r ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu gwybodaeth i drethdalwyr mwyach. Rydym yn cytuno â CLILC mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu sut i gyhoeddi’r wybodaeth hon, yn dibynnu ar anghenion y cymunedau y maent yn eu cynrychioli. Felly, rydym yn deall manteision peidio â bod yn rhy ragnodol gyda’r darpariaethau yn y Bil.

**270.** Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol efallai nad oes gan gyfran sylweddol o’r boblogaeth fynediad at gyfleusterau digidol, a’i bod yn hollbwysig ystyried sut y gellir eu cyrraedd. Heb wybodaeth hygyrch, mae risg y gallai pobl golli diddordeb ac ymddieithrio. Credwn felly fod angen mwy o eglurder ynghylch y trefniadau amgen ar gyfer darparu gwybodaeth i’r rhai sydd â mynediad cyfyngedig neu ddim mynediad o gwbl i gyfleusterau ar-lein. Rydym yn cydnabod, yn draddodiadol, y byddai llyfrgelloedd lleol wedi bod yn lle addas i bobl gael gafael ar wybodaeth, ond fel y dangoswyd yn ein hymchwiliad i wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd awdurdodau lleol, mae llawer o gyfleusterau lleol wedi cau.<sup>195</sup>

**271.** Rydym yn sylweddoli y bydd pob trethdalwr yn cael gwybodaeth am y dreth gyngor gyda’u bil blynyddol, ond efallai y bydd rhai am fod yn ymwybodol cyn cael eu bil er mwyn paratoi. Bydd yn bwysig felly i Lywodraeth Cymru fonitro sut a

---

<sup>194</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 13 Rhagfyr 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 196

<sup>195</sup> Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, [Gwasanaethau Hamdden a Llyfrgelloedd Awdurdodau Lleol, Gorffennaf 2023](#)

---

ble mae awdurdodau lleol yn dewis cyhoeddi hysbysiadau'r dreth gyngor ar ôl gweithredu'r Bil, er mwyn sicrhau bod yr hysbysiadau'n cyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl.

**272.** Soniodd ein sesiwn dystiolaeth yn gryno am hygyrchedd hysbysiadau a gyhoeddir mewn papurau newydd. Rydym yn deall bod angen i hysbysiadau gynnwys gwybodaeth benodol, ond mae eu fformat presennol yn ffurfiol ac yn aml mewn print mân. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i ystyried sut y gall yr hysbysiadau hyn fod yn fwy deniadol a hygyrch i'r rhai sy'n eu darllen.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu monitro gweithrediad y darpariaethau yn adran 20 ar draws awdurdodau lleol, a gwerthuso eu heffaith ar hygyrchedd a thryloywder.

**273.** I gydnabod bod rhai o'n trafodaethau wedi cyffwrdd â materion y tu hwnt i gwmpas y Bil, yn enwedig ariannu papurau newydd lleol a symudiad ehangach posibl tuag at ddefnyddio hysbysiadau digidol, gwnaethom ysgrifennu at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd i dynnu eu sylw at y materion hyn.<sup>196</sup>

**274.** Nodwn yn benodol yr argymhellion mewn adroddiad gan Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Pumed Senedd, a alwodd ar Lywodraeth Cymru i asesu a oes ffyrdd mwy costeffeithiol o gyhoeddi hysbysiadau statudol a sut y gellid ailfuddsoddi unrhyw arbedion a ryddheir i gefnogi newyddiaduraeth newyddion er budd y cyhoedd.<sup>197</sup> Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fyfyrion ar yr argymhelliad hwn ac ystyried sut y gallai gwaith yn y maes hwn lywio gweithredu'r darpariaethau yn adran 20.

## Prisio anheddau

### Y weithdrefn ar gyfer llunio rhestrau prisio

---

**275.** Mae adran 21 o'r Bil yn cyflwyno gofyniad newydd i ailbricio eiddo domestig bob pum mlynedd, gan ddechrau yn 2030. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod yr opsiwn hwn wedi'i ddewis ar y sail ei fod yn:

---

<sup>196</sup> Llythyr at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, 2 Chwefror 2024

<sup>197</sup> Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, *Y Penawdau: Ymchwiliad i Newyddiaduraeth Newyddion yng Nghymru*, Mai 2018

---

*"sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng y manteision sy'n deillio o ailbrisiadau a'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â nhw".<sup>198</sup>*

**276.** Mae bandiau presennol y dreth gyngor yn seiliedig ar brisiadau o fis Ebrill 2003. Nod polisi Llywodraeth Cymru yw sefydlu system sy'n "seiliedig ar brisiadau eiddo mwy cyfredol", gan ddarparu ar gyfer system sy'n "fwy cywir ac yn decach".<sup>199</sup>

**277.** Er bod adran 21 yn darparu ar gyfer ailbrisiu bob pum mlynedd, byddai hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i newid dyddiad ailbrisiadau penodol neu'r bwlch rhwng blynyddoedd ailbrisiu'r dreth gyngor. Mewn theori, gellid cynnal ailbrisiadau'n fwy rheolaidd yn y dyfodol, ond oherwydd cyfyngiadau gweithredol ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nad yw amserlenni byrrach yn bosibl. Mantais bylchau byrrach, yn ôl Llywodraeth Cymru, yw:

*"y byddai prisiadau yn adlewyrchu gwerthoedd eiddo cyfredol yn agosach fyth gan leihau ymhellach y risg o newidiadau mawr ym mand eiddo o'r naill ailbrisiad i'r llall."<sup>200</sup>*

**278.** Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at y risgiau sy'n gysylltiedig ag ailbrisiadau mwy rheolaidd, yn enwedig "pan gynhelir cylch yn ystod cyfnodau o fywiogrwydd neu grebachu anarferol yn y farchnad oherwydd grymoedd economaidd". Yn yr un modd, efallai y bydd amgylchiadau penodol a fyddai'n golygu bod angen ymestyn y bwlch rhwng ailbrisiadau yn y dyfodol, gyda hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wedi'i gynnwys yn y ddarpariaeth.<sup>201</sup>

**279.** Byddai'r darpariaethau yn yr adran hon hefyd yn caniatáu hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ddiwygio erbyn pryd y mae'n rhaid i swyddog rhestru anfon copïau o restrau prisio drafft i awdurdodau bilio yn ystod y broses ailbrisiu. Dywed y Datganiad o Fwriad y Polisi:

*"Ar hyn o bryd, mae deddfwriaeth yn nodi bod yn rhaid i gopi o'r rhestr brisiu newydd ddrafft gael ei anfon i awdurdodau bilio o fewn saith mis i'r dyddiad y mae'r rhestr newydd yn cael ei gwblhau ac y daw i rym. Os caiff y cylchoedd ailbrisiu eu lleihau yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd y terfyn amser hwn yn anymarferol a gallai fod angen ei newid. Byddai'r pŵer hwn yn*

---

<sup>198</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.99

<sup>199</sup> Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, Tachwedd 2023

<sup>200</sup> Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, Tachwedd 2023

<sup>201</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.100

---



*galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y newid technegol hwn os bydd angen.”<sup>202</sup>*

**280.** Dywed y Memorandwm Esboniadol y byddai ailbrisiadau rheolaidd yn "diogelu tegwch yn y system yn barhaus", gyda'r baich treth yn cael ei "rannu'n deg" yn seiliedig ar brisiadau presennol. Mae'n nodi hefyd y byddai ailbrisiadau rheolaidd yn "rhoi'r cyfle i'r cyhoedd ryngweithio'n aml â'r broses". Fodd bynnag, rhagwelir y bydd datblygiadau mewn technoleg a ffynonellau data ar eiddo, ardaloedd lleol a marchnadoedd yn "dibynnu llai ar brisiadau â llaw". Yn hytrach, byddai'r VOA yn "defnyddio'r methodolegau modelu digidol diweddaraf a thechnegau arfarnu torfol ystadegol arloesol".<sup>203</sup>

**281.** Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif y byddai ailbrisio 1.4 miliwn eiddo yn costio £18 miliwn rhwng 2024-25 a 2033-34. Byddai'r rhan fwyaf o'r gost hon ar gyfer yr ailbrisio ei hun a gynhelir gan y VOA (£14 miliwn), ac amcangyfrifir y bydd cost o dros £2.5 miliwn i awdurdodau lleol wrth iddynt ymdrin â chynnydd mewn cysylltiadau gan drethdalwyr.<sup>204</sup>

**282.** Mae'r IFS yn nodi y byddai cyflwyno cylch ailbrisio rheolaidd ar gyfer y dreth gyngor yn helpu i osgoi'r sefyllfa bresennol lle mae'r dreth gyngor yn seiliedig ar werth cymharol eiddo dros 20 mlynedd yn ôl. Dywedant fod hyn yn golygu bod 40 y cant o eiddo a mwy yn y band anghywir i bob pwrpas.<sup>205</sup>

**283.** Nododd yr IFS hefyd y byddai sicrhau cylchoedd ailbrisio statudol yn helpu aelwydydd i gynllunio – gan gynnwys wrth brynu neu werthu eiddo, yn ogystal â galluogi awdurdodau bilio a'r VOA i gynllunio, tra hefyd yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd ailbrisiadau yn digwydd mewn gwirionedd.<sup>206</sup>

**284.** Nododd yr IRRV yn eu tystiolaeth:

*“The Institute fully supports the move to five-yearly cycles of revaluations, on the condition that future revaluations will not take place any longer than five-years. As such, we support the wording ‘five-years or less’.”<sup>207</sup>*

**285.** Roedd CLILC yn cydnabod y bydd ailbrisiad ar ôl 20 mlynedd yn achosi cythrwfl sylweddol, gan y bydd pob talwr ardrethi yn cael ei effeithio, ond

---

<sup>202</sup> Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, Tachwedd 2023

<sup>203</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.96

<sup>204</sup> Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, Tabl 8.5

<sup>205</sup> IFS, tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>206</sup> IFS, tystiolaeth ysgrifenedig

<sup>207</sup> IRRV, tystiolaeth ysgrifenedig



roeddent yn gefnogol i'r ddarpariaeth, a ddisgrifiwyd ganddynt fel cam beiddgar. Gwnaethant nodi:

*“Ar ôl aros am 20 mlynedd am ailbrisiad, yn naturiol mae pryder am yr effeithiau posibl ar unigolion. Mae symud i gylched ailbrisiu rheolaidd yn rhoi sicrwydd bod y dreth gywir yn cael ei chodi, ac mae'r bandiau eiddo yn cael eu hadolygu i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.”<sup>208</sup>*

**286.** Fodd bynnag, tynnodd Un Llais Cymru sylw at alwadau gan Gyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn i Lywodraeth Cymru atal ei chynlluniau ar gyfer ailbrisiu:

*“as it believes that due to the present cost of living crisis where the people of Wales have suffered unprecedented increases in the cost of Gas, Electricity, Food, Mortgages/Rents, Water Rates, Council Tax etc. an additional setback instigated by Welsh Government would cause widespread anger across the electorate and possibly lead to public unrest, predictably when the full implications of the Bill become evident.”<sup>209</sup>*

## Ein barn ni

---

**287.** Mae'n anochel y bydd effaith ar nifer o aelwydydd yn dilyn yr ailbrisiad cyntaf o eiddo domestig mewn 20 mlynedd, a fydd yn bryder i lawer ar ben yr argyfwng costau byw. Bydd yn hanfodol sicrhau bod mesurau diogelu a chymorth trosiannol i ddeiliaid tai a fydd yn atebol am dalu'r dreth gyngor ar gael yn ystod yr ailbrisiu hwn, y cyntaf ers dros ddau ddegawd. Fodd bynnag, fel egwyddor, rydym yn cytuno y bydd ailbrisiadau mwy cyfredol a rheolaidd yn debygol o sicrhau bod y baich treth yn cael ei ddosbarthu'n fwy cywir yn y dyfodol, gyda newidiadau llai ym miliau'r dreth gyngor ar ôl pob ailbrisiad pum mlynedd o ganlyniad.

**288.** Rydym yn gwerthfawrogi y gall ailbrisiad y dreth gyngor effeithio hefyd ar sylfaen y dreth gyngor awdurdodau lleol. Felly, rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ystyried hefyd sut y mae'n bwriadu cefnogi'r awdurdodau hynny y gallai eu sylfaen dreth leihau o ganlyniad i'r ailbrisiad gyda threfniadau cyllid trosiannol.

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am ei chynigion ar gyfer unrhyw drefniadau trosiannol a all fod yn ofynnol i gefnogi aelwydydd ac awdurdodau lleol o ganlyniad i ailbrisiu'r dreth gyngor.

---

<sup>208</sup> CLILC, [tystiolaeth.ysgrifenedig](https://tystiolaeth.ysgrifenedig.org/)

<sup>209</sup> Un Llais Cymru, [tystiolaeth.ysgrifenedig](https://tystiolaeth.ysgrifenedig.org/)

## Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar [wefan](#) y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
<b>13 Rhagfyr 2023</b>	<b>Rebecca Evans AS,</b> Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol <b>Debra Carter,</b> Llywodraeth Cymru <b>Simon Tew,</b> Llywodraeth Cymru <b>Ruth Cornick,</b> Llywodraeth Cymru
<b>25 Ionawr 2024</b>	<b>Stuart Adam,</b> Sefydliad Astudiaethau Cyllid <b>Matthew Evans,</b> Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw <b>Lakshmi Narain,</b> Sefydliad Siartredig Trethu <b>Jonathan Russell,</b> Asiantaeth y Swyddfa Brisio <b>Carolyn Bartlett,</b> Asiantaeth y Swyddfa Brisio <b>Carolyn Dawson,</b> Tribiwnlys Prasio Cymru <b>Lisa Hayward,</b> Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru <b>Matthew Phillips,</b> Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru <b>Y Cyngorydd Susan Morgan,</b> Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru <b>Y Cyngorydd Robin Williams,</b> Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru <b>Llyr ap Gareth,</b> FSB

Dyddiad	Enw a Sefydliad
	<p><b>Robin Osterley,</b> Cymdeithas Manwerthu Elusennol</p> <p><b>Morgan Schondelmeier,</b> Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Cymru</p>
<p><b>31 Ionawr 2024</b></p>	<p><b>Rachel Bowen,</b> Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru</p> <p><b>Steffan Rhys,</b> Reach plc</p> <p><b>Gavin Thompson,</b> Newsquest (Cymru)</p> <p><b>Rob Taylor,</b> Wrexham.com</p>
<p><b>7 Chwefror 2024</b></p>	<p><b>Rebecca Evans AS,</b> Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol</p> <p><b>Ben Crudge,</b> Llywodraeth Cymru</p> <p><b>Simon Tew,</b> Llywodraeth Cymru</p> <p><b>Ruth Cornick,</b> Llywodraeth Cymru</p>

## Atodiad B: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd yr unigolion a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar [wefan](#) y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
<b>LGF 01</b>	Fairer Share - DILËWYD
<b>LGF 02</b>	Sefydliad Siartredig Trethu
<b>LGF 03</b>	Un Llais Cymru
<b>LGF 04</b>	FSB
<b>LGF 05</b>	Robinsons Brewery
<b>LGF 06</b>	Sefydliad Bevan
<b>LGF 07</b>	Cymdeithas Manwerthu Elusenol
<b>LGF 08</b>	Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw
<b>LGF 09</b>	Sefydliad Astudiaethau Cyllid
<b>LGF 10</b>	Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Cymru
<b>LGF 11</b>	Cyngor Tref Aberystwyth
<b>LGF 12</b>	Shopkeepers' Campaign
<b>LGF 13</b>	Consortiwm Manwerthu Cymru
<b>LGF 14</b>	Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl
<b>LGF 15</b>	Awdurdod Cyllid Cymru
<b>LGF 16</b>	CLILC
<b>LGF 17</b>	Cynghrair Twristiaeth Cymru
<b>LGF (S20) 01</b>	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
<b>LGF (S20) 02</b>	Unigolyn
<b>LGF (S20) 03</b>	Unigolyn
<b>LGF (S20) 04</b>	Unigolyn
<b>LGF (S20) 05</b>	Tony Lock

<b>Cyfeirnod</b>	<b>Sefydliad</b>
<b>LGF (S20) 06</b>	Jean Campbell Leith
<b>LGF (S20) 07</b>	Winston V Jones
<b>LGF (S20) 08</b>	Barry Franks
<b>LGF (S20) 09</b>	Unigolyn
<b>LGF (S20) 10</b>	Unigolyn
<b>LGF (S20) 11</b>	Unigolyn
<b>LGF (S20) 12</b>	Unigolyn
<b>LGF (S20) 13</b>	David Williams
<b>LGF (S20) 14</b>	Y Cynghorydd Andy Gallanders
<b>LGF (S20) 15</b>	Angela Radice
<b>LGF (S20) 16</b>	Arnold Woolley
<b>LGF (S20) 17</b>	Dr Michael Parry
<b>LGF (S20) 18</b>	Barrie White
<b>LGF (S20) 19</b>	Unigolyn
<b>LGF (S20) 20</b>	Unigolyn
<b>LGF (S20) 21</b>	Y Cynghorydd Marc Jones
<b>LGF (S20) 22</b>	Leah Powell
<b>LGF (S20) 23</b>	Mick O Reilly
<b>LGF (S20) 24</b>	Paul Higman
<b>LGF (S20) 25</b>	Liz Davies
<b>LGF (S20) 26</b>	Scott Wood
<b>LGF (S20) 27</b>	WalesOnline a Reach plc
<b>LGF (S20) 28</b>	Wrexham.com
<b>LGF (S20) 29</b>	Unigolyn
<b>LGF (S20) 30</b>	Carole Jacob
<b>LGF (S20) 31</b>	Ted Sangster
<b>LGF (S20) 32</b>	News Media Association
<b>LGF (S20) 33</b>	Newsquest
<b>LGF (S20) 34</b>	Craig Colville

<b>Cyfeirnod</b>	<b>Sefydliad</b>
<b>LGF (S20) 35</b>	Phil Broadhurst
<b>LGF (S20) 36</b>	Carmen Jakobi-Negus
<b>LGF (S20) 37</b>	Unigolyn
<b>LGF (S20) 38</b>	Unigolyn
<b>LGF (S20) 39</b>	Unigolyn

## **Gwybodaeth Ychwanegol**

<b>Teitl</b>	<b>Dyddiad</b>
Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol	13 Chwefror 2024